

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2011/12



Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Dyfrffyrdd Prydain 2011/2012

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag adran 24 (3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd y DU yn unol ag adran 27 (8) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Senedd yr Alban yn unol ag adran 24 (3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd yr Alban yn unol ag adran 27 (8c) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn gorfforaeth gyhoeddus wedi'i noddi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yng Nghymru a Lloegr, a Transport Scotland (asiantaeth Llywodraeth yr Alban) yn yr Alban. Rydym yn rheoli rhwydwaith 2,200 milltir o hyd, 200 oed, o gamlesi ac afonydd.

Y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol, Cymru a Lloegr

Richard Benyon AS

Y Gweinidog dros Dai a Thrafnidiaeth, Yr Alban

Keith Brown MSP

Blaenoriaethau Strategol

Yng Nghymru a Lloegr, mae ein hadran nawdd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn darparu canllawiau strategol sy'n berthnasol i'r blaenoriaethau canlynol:

- Sicrhau bod y rhwydwaith dyfrffyrdd yn cael ei gadw mewn cyflwr boddhaol
- Gwireddu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth y DU/Dyfrffyrdd Prydain o fod yn fwy hunangynhaliol
- Sicrhau amrywiaeth o fuddiannau cyhoeddus ychwanegol.

Yn yr Alban, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban. Mae hyd a lled gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban yn cyd-fynd â'r diben a'r pum Amcan Strategol a amlinellir gan Lywodraeth yr Alban:

- Cyfoethocach a Thecach
- Iachach
- Diogelach a Chryfach
- Doethach
- Gwyrddach

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn 2012/13.

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Mae bron i 50 mlynedd wedi mynd heibio ers cynnal cyfarfod cyntaf Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain ym 1962. Yn y cyfarfod hwnnw, cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i gau Camlas St. Helens a rhannau o Gamlas Birmingham a Chamlas Macclesfield. Roedd cyfeiriad at Dr Beeching yn y cofnodion hyd yn oed.

Y Gorffennol

Hefyd ym 1962, arweiniodd David Hutchings dîm o wirfoddolwyr mewn gweithred fach o anufudd-dod sifil trwy ddefnyddio llinellau llusg i glirio Camlas Stourbridge i hwyluso rali hanesyddol Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol. Cafodd ei wrthwynebu gan swyddogion dig Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain yn eu siwtiau, gan arwain at ddrwgdeimlad hirdymor rhwng y naill a'r llall.

Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, mae'n bleser gen i fel cadeirydd Dyfrffyrdd Prydain gyfrannu at gofeb deilwng i David Hutchings – arwr go iawn a oedd yn barod i herio fy rhagflaenydd.

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi newid yn aruthrol dros yr 50 mlynedd diwethaf, a gallwn ymfalchïo yn llwyddiant diweddar y sefydliad. Yn ystod y cyfnod hwn, mae ysbryd newydd o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth â chyrrff gwirfoddol, llywodraethau-cenedlaethol a lleol, a llu o sefydliadau trydydd parti fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri, wedi gweddnewid y sefyllfa, nid yn unig o safbwynt cyflwr ffisegol y dyfrffyrdd, ond o safbwynt eu defnydd a'r canfyddiad ohonynt hefyd.

Mae swyddogion a oedd yn gwrthod mynediad ac y rheoli'r broses o gau'r dyfrffyrdd bellach wedi'u disodli gan dîm sy'n ymroi i adfer ein dyfrffyrdd a gwella eu cyflwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae dros 200 milltir o ddyfrffyrdd wedi'u hadfer dros y deng mlynedd diwethaf a gwiredwyd breuddwyd Max Sinclair eleni – sef ailagor Camlesi Droitwich Barge a Junction gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Caroline Spelman AS. Mae'r gwaith adfer yn parhau ac mae dyfrffyrdd a llwybrau tynnu Dwyrain Llundain o gwmpas y Parc Olympaidd yn edrych yn wych.

Yn yr Alban, mae contractau wedi'u rhoi i greu mynedfa newydd unigryw a mynediad i Gamlas Forth a Clyde, ac rydym yn awyddus i annog cymdeithasau a sefydliadau gwahanol i barhau i weithio i adfer mwy o'r rhwydwaith.

Nid yw cyflwr sylfaenol ein dyfrffyrdd wedi bod cystal ers blwyddyn lawer. Cwblhawyd rhai o'r gwelliannau cynnar heb lawer o adnoddau ariannol, ac roedd hyd oes rhywfaint o'r gwaith hwn yn gyfyngedig. Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi mynd ati yn gyson dros y deng mlynedd diwethaf i wella ansawdd y prif adeileddau fel dyfrbontydd, cronfeydd dŵr, pontydd a lociau, gan eu diogelu a sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Erbyn hyn, dim ond 16.5% ohonynt sydd yn ein categorïau isaf, o gymharu â thros 30% tua deng mlynedd yn ôl.

Mae defnydd y cyhoedd wedi cynyddu eto eleni, ac amcangyfrifir bod nifer yr ymweliadau wedi codi o 290 miliwn yn 2010 i 308 miliwn yn 2011, wrth i 92% o bobl gydnabod pwysigrwydd ein dyfrffyrdd fel rhan o dreftadaeth y genedl. Cynhaliwyd 17 diwrnod agored poblogaidd iawn, gyda 1,000 o bobl yn ymweld â'n gweithdai llifddorau, a 7,500 o bobl yn dringo trwy lociau Bingley Five Rise a oedd wedi'u draenio. Mae cychod yn ganolog i'r defnydd o'n dyfrffyrdd, ac mae'r defnydd hwn yn cael ei fesur gan

nifer y trwyddedau cychod hirdymor. Mae'r ffigur hwn ychydig yn llai na 35,000, er gwaethaf y straen economaidd ar ddefnyddio cychod. Ac er gwaethaf dau aeaf eithriadol o sych, roedd modd cadw'r rhan fwyaf o gamlesi ar agor diolch i fesurau i gynnal y cyflenwad dŵr.

Wrth i gymorth grant y llywodraeth leihau, mae ein gallu i gynyddu a gwella'r rhwydwaith wedi'i seilio ar gynyddu ein hincwm o ffynonellau eraill ac ymdrech gyson i wella effeithlonrwydd trwy dechnoleg a dulliau gweithio newydd. Cafodd ein tîm masnachol flwyddyn hynod lwyddiannus, ac roedd gwerthu cyfranddaliadau cyd-fenter Wood Wharf yn uchafbwynt. Bydd ail-fuddsoddi'r enillion a chynnig les hir yn sicrhau incwm ychwanegol gwerth £10 miliwn maes o law. Mae'r llwyddiant hwn wedi deillio o flynyddoedd o waith gofalus a medrus yn braenaru'r tir. O gymharu â deng mlynedd yn ôl, mae grant blynyddol y llywodraeth wedi disgyn o £64.6 miliwn i £57.7 miliwn tra bod ein hincwm masnachol wedi codi o £68.0 miliwn i £108.2 miliwn. Mae defnyddio technoleg fodern a dulliau gweithio newydd wedi helpu i leihau ein costau gweithredu blynyddol £20 miliwn y flwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae nifer cynyddol o wirfoddolwyr o bob oedran a phob cefndir wedi helpu ein gwaith yn sylweddol hefyd. Roedd yn dda gweld ein *Waterways Action Squad* yn cael cydnabyddiaeth yng ngwobrau *Waterways Renaissance*. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr wedi cynyddu yn ddramatig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda bron i 39,000 o ddiwrnodau gwirfoddoli yn cael eu cofnodi o gymharu â 24,000 yn 2010. Rydym yn ddiolchgar i Brian Blessed am roi o'i amser i arwain yr ymgyrch lwyddiannus i ddenu ceidwaid lociau gwirfoddol, ac rydym yn diolch i'n tîm ein hunain am ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau newydd sy'n dod yn sgil gweithio gyda gwirfoddolwyr.

Mae mantolen Dyfrffyrdd Prydain wedi cryfhau wrth i'n hasedau net gynyddu 15% i £452 miliwn o gymharu â'r llynedd, diolch i dwf ein hasedau eiddo, sydd wedi rhagori yn sylweddol ar feincnodau cydnabyddedig y diwydiant dros gyfnod o flwyddyn a thair blynedd. Mae'r ffaith fod Dyfrffyrdd Prydain a'n cyd-fentrau wedi dileu dyledion bron yn llwyr lle mae gwerthiant preswyl yn ein heiddo datblygu wedi bod yn llwyddiant, hefyd wedi dileu risg o'n mantolen.

Yn ogystal â'r holl waith hwn i gadw dyfrffyrdd Prydain ar agor ac yn weithredol ar gyfer ein cwsmeriaid amrywiol, mae'r sefydliad wedi manteisio ar y cyfle i weithio gyda llywodraethau i greu dyfodol disglair i'r dyfrffyrdd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae hyn wedi creu llwyth gwaith eithriadol i'r bobl sy'n cynllunio ac yn gweithredu system lywodraethu newydd, yn datblygu agwedd newydd tuag at ariannu ac yn gweithio gyda gweision sifil ar yr agweddau amrywiol ar ddeddfwriaeth a'r broses seneddol.

Y Dyfodol

Mae Dyfrffyrdd Prydain ar fin trosglwyddo ei asedau a'i gyfrifoldebau yng Nghymru a Lloegr i ymddiriedolaeth elusennol newydd y Canal & River Trust, neu Glandŵr Cymru. Yn yr Alban bydd Dyfrffyrdd Prydain yn parhau i weithredu o fewn y sector cyhoeddus. Bydd Gweinidogion yr Alban yn gyfrifol am benodi pob aelod o Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain a fydd yn gweithredu o dan yr enw Scottish Canals.

Bydd yr Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd hefyd yn uno â'r Canal & River Trust yng Nghymru a Lloegr, gan drosglwyddo eu cyfrifoldeb am amgueddfeydd a'u cyfrifoldebau eraill i'r Ymddiriedolaeth gyfunol. Mae'r Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd wedi cyflawni llawer ers ei sefydlu 13 blynedd yn ôl, a hoffwn ddiolch i Frances Done a'r Ymddiriedolwyr, ac i Roger Hanbury a'i staff, am eu holl ymdrechion dros y blynyddoedd. Bydd yr Ymddiriedolaeth newydd yn elwa ar eu profiad a'u syniadau. Bydd Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd yr Alban yn gwahanu oddi wrth Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd Cymru a Lloegr i fod yn elusen sy'n perthyn yn gyfan gwbl i'r Alban ac yn cydweithio'n agosach â Chamlesi'r Alban.

Mae'r Canal & River Trust wedi'i sefydlu bellach ac mae gan y sefydliad Ymddiriedolwyr, Cyngor - gan gynnwys sawl aelod etholedig, Partneriaethau Dyfrffyrdd a Phwyllgorau Cyngori. Bydd bwrdd yr Ymddiriedolwyr newydd yn atebol i Gyngor o hyd at bymtheg ar hugain o aelodau yn hytrach nag i un Gweinidog yng Nghymru a Lloegr, ond bydd y strwythur llywodraethu yn ei gyfanrwydd yn cynnwys bron i 200 o bobl. Rydym wrth ein bodd hefyd fod Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru wedi cytuno i fod yn noddwr sefydlu'r Ymddiriedolaeth newydd.

Yn yr Alban, bydd rheolwyr y dyfrffyrdd, a ariannwyd gan Lywodraeth yr Alban yn y gorffennol, yn atebol i'r llywodraeth honno trwy Fwrdd o aelodau a fydd yn cael eu penodi.

Am y tro cyntaf erioed, mae gan ddyfrffyrdd Cymru a Lloegr gynllun ariannol 15 mlynedd, ac mae prif elfennau'r incwm yn gymharol sefydlog ac yn galluogi rheolwyr i gynllunio gwariant yn fwy effeithlon ac effeithiol. Sylfaen y cynllun yw contract y llywodraeth sy'n werth £800 miliwn yn cynnwys chwyddiant. Roedd adolygiad KPMG o waith y rheolwyr yn galonddid i'r Bwrdd a'r Ymddiriedolwyr. Rhoddodd hyder i ni gytuno ar contract y llywodraeth.

Mae cyfle i ni wella'r cynllun hwnnw os ydym yn rhagori ar y targedau gwirfoddol sy'n gwneud gwahaniaeth yn nhermau profiadau o ansawdd gwirioneddol ar gyfer ymwelwyr ar gychod a llwybrau tynnu. Mae 2012 yn flwyddyn arbennig i lansio'r Canal & River Trust, Glandŵr Cymru ac i Dyfrffyrdd Prydain yr Alban ddechrau gweithredu yn annibynnol.

Eleni rydym yn dathlu 250 mlynedd ers geni John Rennie, un o sylfaenwyr system y camlesi. Rydym hefyd yn dathlu deucanmlwyddiant Camlas Mynwy ac Aberhonddu a deucanmlwyddiant llofnodi Deddf Camlas Regent. Mae'n ddegfed pen-blwydd Olwyn Falkirk - rhyfeddod modern byd y camlesi, a adeiladwyd o dan arweiniad Jim Sterling, y cyfarwyddwr sy'n ymddeol. Fel rhan o Flwyddyn Jiwbilf'r Frenhines, roedd hi'n braf iawn gweld rhai o gychod ein camlesi yn cymryd rhan yn y deyrnged i'w Mawrhydi ym Mhasiant y Tafwys. Y diwrnod hwnnw, aeth dim llai na 77 o gychod i Loc Doc West India o'r Tafwys gyda'i gilydd mewn un daith drwy'r loc. Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i wella'r dirwedd o gwmpas safle sioe fwya'r byd ym mlwyddyn Gemau Olympaidd Llundain. Mae Taith Gyfnwyd y Fflam Olympaidd hefyd yn ymweld â rhai o'n safleoedd, gan gynnwys Dyfrbont Pontcysyllte, Lociau Foxton, ac Olwyn Falkirk. Mae hon yn flwyddyn arbennig i lansio cyfnod newydd ar gyfer ein hafonydd a'n camlesi yn nhair gwlad Prydain.

Diolch

Wrth i bennod Dyfrffyrdd Prydain gau a phennod newydd agor, hoffwn ddiolch i'r canlynol:

- Y mudiad gwirfoddol sy'n cael ei gynrychioli gan David Hutchings, Max Sinclair a Clive Henderson (cadeirydd y Gymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol). Rydych yn cynrychioli llawer o unigolion a sefydliadau sydd wedi gwneud cymaint i ddiogelu ein trefnadaeth. Gadewch i ni gydweithio gan barchu ein gilydd wrth symud ymlaen.
- Robin Evans a'i dîm gweithredol am eu harweiniad ardderchog wrth i'r dyfrffyrdd a'u dulliau rheoli yn y dyfodol gael eu gweddnewid ac am ganfod atebion i broblemau yn gyson.
- Staff Dyfrffyrdd Prydain, sy'n gofalu am ein camlesi ag angerdd gan ddangos y gofal hwnnw bob dydd wrth weithio ar y glannau neu yn y swyddfa. Mae eu hagwedd gadarnhaol wrth fanteisio ar gyfleoedd newydd wedi bod yn hanfodol.
- Yr Ysgrifennydd Gwladol Caroline Spelman AS, Gweinidog y Dyfrffyrdd Richard Benyon AS a'r Gweinidog dros Dai a Thrafnidiaeth yn yr Alban, Keith Brown MSP a'u gweision sifil galluog am arwain y newidiadau mawr hyn drwy'r broses ddeddfu, gan sicrhau cefnogaeth yr holl bleidiau. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Richard Benyon AS am ei arweiniad gwleidyddol a'i ymgynghoriad eang gydol y broses ar draws y llywodraeth a thrwy'r senedd, gan gynnwys ei waith yn dadlau o blaid, ac yn sicrhau setliad ariannol caled ond teg ar gyfer y Canal & River Trust, Glandŵr Cymru.
- Aelodau Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain, sydd bron i gyd yn ymddeol eleni, Ymddiriedolwyr y Canal & River Trust a Bwrdd cysgodol Camlesi'r Alban, sydd wedi cydweithio yn ardderchog i sicrhau cymaint o gynnydd mewn cyfnod cymharol fyr.

Ni chafodd Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain ddechrau da, ond 50 mlynedd yn ddiweddarach mae'r diweddglo yn destun cryn falchder i mi. Rydym yn gadael rhwydwaith o gamlesi ac afonydd sy'n cael eu gwerthfawrogi, eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw yn well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Tony Hales CBE
Cadeirydd

ADOLYGIAD BUSNES

Nid yw'n ormodiaeth dweud na fu blwyddyn debyg i hon erioed yn hanes Dyfrffyrdd Prydain, wrth i her a newid hoelio'n sylw.

Roedd y dirwasgiad a sychder yn heriau allanol o bwys, ond daeth gobaith am newid cadarnhaol ar gyfer dyfodol y dyfrffyrdd diolch i'r cynnydd parhaol tuag at statws elusennol yng Nghymru a Lloegr, a datblygu sefydliad sector cyhoeddus annibynnol yn yr Alban.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein camlesi a'n hafonydd ac ar annog mwy o bobl i'w mwynhau, gan greu teimlad gwirioneddol o berchenogaeth a chyfrifoldeb yn sgil hynny.

Yn yr adolygiad hwn rydym yn disgrifio ein gwaith hynod amrywiol. Yn anad dim, rydym yn cynnal a chadw ein dyfrffyrdd mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hygyrch i tua un filiwn ar ddeg o bobl sy'n ymweld â nhw bob blwyddyn yn ogystal â bron i 35,000 o gyhochod trwyddedig sy'n eu defnyddio. Mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd bod gennym ddigon o incwm i wneud hyn. Rydym yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, gan ail-fuddsoddi ein holl incwm i gynnal a chadw ein camlesi a'n hafonydd.

Wedyn rydym yn ceisio sicrhau'r budd cyhoeddus mwyaf i'r gymuned mewn ffyrdd amrywiol, fel iechyd, addysg, adfywio economaidd, lliniaru llifogydd, cyfiawnder adferol a chynhwysiant.

Mae dyfrffyrdd yn cynnig dulliau arloesol o fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd hefyd ac yn darparu treftadaeth naturiol ac adeiledig unigryw sydd ar gael i bawb.

Mae gwerth ariannol y budd cyhoeddus sy'n deillio o'n camlesi, ein hafonydd a'u cyffiniau yn £500 miliwn y flwyddyn.

RHAGOR O GEFNOGAETH GYHOEDDUS Ymweliadau, cefnogaeth a bodlonrwydd

Amcangyfrifir bod un filiwn ar ddeg o bobl wedi ymweld â'n camlesi a'n hafonydd yn 2011, sef 23% o boblogaeth oedolion Prydain, ac roedd 92% o'r boblogaeth o'r farn fod camlesi yn rhan bwysig o dreftadaeth y genedl.

Er gwaethaf pwysau economaidd, roedd nifer y trwyddedau cychod a gyhoeddwyd yn gymharol sefydlog o hyd. Roedd y galw wedi'i ailddosbarthu rywfaint rhwng trwyddedau cychod preifat (gostyngiad o tua 200) a thrwyddedau at ddibenion masnachol, a gynyddodd yn bennaf oherwydd cynnydd yn y galw am y cyfleuster trwyddedau masnachol. Cynyddodd cyfanswm incwm o drwyddedau cychod 2.3%.

Dangosydd arall o gefnogaeth a diddordeb y cyhoedd yw'r ffaith fod nifer y gwirfoddolwyr a'r diwrnodau gwirfoddol wedi cynyddu dros 60% i bron i 39,000.

Cwsmeriaid

Rydym yn pwyso a mesur profiad ein hymwelwyr trwy ofyn iddynt i ba raddau y maent yn 'dueddol o argymell'. Yn 2011, dywedodd 83% o ddefnyddwyr llwybrau tynnu (2010: 83%) a 72% o berchenogion cychod (2009: 73%) y byddent 'yn sicr' yn argymell ein dyfrffyrdd i eraill neu y byddent yn 'debygol' o wneud hynny, sy'n ffigurau parchus iawn.

Rydym yn awyddus i ymgysylltu â chwsmeriaid trwy ddefnyddio dulliau y maent yn teimlo'n gyfforddus â nhw, boed hynny'n gyfryngau cyfathrebu ffurfiol, sgysiau anffurfiol, neu fel sy'n dod yn fwy cyffredin, gwefannau cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn cynnal sesiynau grwpiau defnyddwyr lleol

ddwywaith y flwyddyn, ac wrth i ni symud tuag at statws elusennol trwy greu Partneriaethau Dyfrffyrdd, bydd y prosesau rhyngweithio hyn yn dod yn bwysicach. Mae Fforwm Cynghori hirsefydlog Dyfrffyrdd Prydain wedi bod yn werthfawr iawn, ac wrth symud i statws Ymddiriedolaeth yn y dyfodol, bydd yn rhan annatod o'r Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol.

Gwirfoddolwyr

Roedd y maes gwirfoddoli yn un o lwyddiannau mawr 2011 a hoffem ddiolch yn fawr i'r holl wirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol rydym yn gweithio â nhw yn rheolaidd, fel cymdeithasau camlesi, busnesau lleol a chymdeithasau preswylwyr.

Mae cyfraniad gwirfoddolwyr wedi cynyddu'n aruthrol dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth i bron i 39,000 o ddiwrnodau gwirfoddol gael eu cofnodi o gymharu â 24,000 yn 2010. Mae hyn wedi cynnwys cyfraniad gan fwy o wirfoddolwyr â sgiliau proffesiynol at waith ein timau peirianeg, gweithrediadau, marchnata, treftadaeth ac amgylchedd.

Mae'r fyddin o wirfoddolwyr wedi helpu i sicrhau cyllid, monitro cynefinoedd a rhannu eu brwdfrydedd dros gamlesi â phobl newydd. Llwyddodd yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i hyrwyddo ceidwaid lociau tymhorol gwirfoddol i ddenu dros 500 o ymholiadau, gan ein helpu i ddarparu ceidwaid lociau ychwanegol ar 60 safle ledled Cymru a Lloegr. Wrth i ni symud tuag at statws elusennol yng Nghymru a Lloegr, bydd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar weithio'n agosach gyda'n partneriaid, datblygu ein gwaith gyda phartneriaethau corfforaethol, ymgysylltu â rhagor o bobl ym meysydd blaen y tŷ, addysg, hyrwyddo a gwasanaeth cwsmeriaid, a gweithredu fel cenhadon cymunedol.

Mae'r *Waterway Action Squad* wedi llwyddo i ddenu llawer o wirfoddolwyr ifanc ac fe gafodd gydnabyddiaeth yng ngwobrau *Waterway Renaissance* eleni.

Dyfrffyrdd fel adnodd addysgol

Rydym yn gwybod bod ymgysylltu â phobl ifanc yn bwysig gan fod dyfodol hirdymor y dyfrffyrdd yn dibynnu ar agweddau cenedlaethau'r dyfodol. Dyna pam rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau cryf gydag ysgolion a grwpiau cymunedol, gan weithio ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth y Dyfrffyrdd a'r Gymdeithas Dyfrffyrdd Mewnol trwy'n hymgyrch ar y cyd, *Wild Over Waterways* (WOW).

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer y gwirfoddolwyr addysg er mwyn cynnig mwy o weithgareddau dysgu i ysgolion a grwpiau wedi'u trefnu. Rydym wedi recriwtio a hyfforddi 70 o wirfoddolwyr addysg, sydd wedi rhoi 600 o ddiwrnodau gwirfoddol (gwerth dros £90,000). Dyma gryn gamp ym mlwyddyn gyntaf ein rhaglen recriwtio gwirfoddolwyr addysg newydd.

Roedd y prosiectau o dan arweiniad gwirfoddolwyr yn cynnwys grŵp ar Gamlas Kennet ac Avon sydd wedi arwain ymweliadau ysgolion; timau yng nghanolbarth Lloegr a fu'n brysur yn cynnal ymweliadau ysgolion a digwyddiadau penwythnos i deuluoedd; a gwirfoddolwyr ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu sy'n helpu i ddarparu rhaglen i ysgolion fel rhan o ddatblygiadau deucanmlwyddiant y gamlas.

Mae prosiectau eraill ein tîm addysg yn cynnwys: hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal gweithdai ysgolion yn ystod Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth; a phrosiectau Dyfrbont Iron Trunk, Adfer Lociau Grisiog Caerfaddon, Prosiect Cylch Heartlands ac Adfer Dyfrbont Lune.

Celf gyfoes ar y dyfrffyrdd

Diolch i arian gan yr Arts Council of England, mae rheolwr newydd wedi'i benodi i ddatblygu'r celfyddydau a gweithio ar gyfres o brosiectau pilot sy'n ystyried y posibilrwydd o gydweithio ym maes y celfyddydau ar ein dyfrffyrdd. Rydym yn awyddus i ymgysylltu ag artistiaid a sefydliadau celf gan eu bod yn ychwanegu gwerth sylweddol at dir y cyhoedd, yn gwella'r amgylchedd ffisegol, yn hyrwyddo mewnfuddsoddi a thwristiaeth ac yn lleihau troseddau lefel isel fel fandaliaeth. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gyda'r Arts Council of England yn nodi sut y byddwn yn ymgysylltu ag artistiaid cyfoes er budd y dyfrffyrdd, ac rydym wedi cytuno mewn egwyddor i ddatblygu trefniant tebyg yng Nghymru. Yn yr Alban, mae canolfan greadigol ffyniannus yn datblygu yn Speirs Wharf ar Gamlas y Forth a Clyde yng Ngogledd Glasgow fel rhan o Brosiect Adfer Camlas Glasgow. Mae'n cynnwys stiwdio gerflunio sydd wedi symud i adeilad Whisky Bond ar ei newydd

wedd ac mae cynlluniau i greu gardd gerfluniau wrth ymyl y gamlas. Dyma un o nifer o gyfleoedd gwahanol rydym yn eu datblygu i sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn fwy diddorol a deniadol i fwy o bobl.

Cwynion a cheisiadau am wybodaeth

Rydym yn cymryd unrhyw gwynion o ddifrif ac mae gennym weithdrefn sydd wedi'i hen sefydlu i ymdrin â nhw. Yn ystod 2011/12 fe gawsom 204 o gwynion lefel gyntaf, sef 11% yn llai na'r flwyddyn flaenorol (2010/11: 230). O'r cwynion lefel gyntaf hyn, aeth 40 ymlaen i'r ail lefel er mwyn i uwch reolwr neu gyfarwyddwr eu hystyried, sef 20% o'r holl gwynion a ddaeth i law (2010/11: 21% a 2009/10: 18%).

Mae Ombwdsmon Annibynnol y Dyfrffyrdd ar gael i ystyried cwynion ar y drydedd lefel a'r lefel olaf. Yn ystod 2011/12, derbyniodd 63 o ymholiadau (2011: 85), gyda 8% yn amherthnasol i ni (2011: 14%) a 60% yn gynamserol (2010/11: 59%), h.y. nid oedd yr achwynydd wedi cwblhau ein gweithdrefn gwyno fewnol. Cafodd 16 o gwynion (2011: 21) eu derbyn i'w hystyried. Cwblhaodd Ombwdsmon y Dyfrffyrdd 22 o achosion yn ystod y flwyddyn hon (2011: 21). Gwrthodwyd 13 o gwynion, cafodd pump eu derbyn (yn rhannol neu'n llawn) neu rhoddwyd camau ar waith ar ôl i'r Ombwdsmon ymyrryd yn anffurfiol i ddatrys yr achos yn foddhaol. Ni ddaeth i unrhyw gasgliad mewn pedwar achos neu ni aeth yr achosion ymlaen (tynnodd yr achwynydd yn ôl neu ni chyflwynodd y wybodaeth ofynnol, roedd dadl ynghlŷn â phwynt cyfreithiol neu fater yn ymwneud â'r Comisiynydd Gwybodaeth). Mae gwybodaeth am y cynllun Ombwdsmon a'i bwyllgor annibynnol ar gael yn www.waterways-ombudsman.org

Cynyddodd nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth 9% eleni i 282 (2011: 259 a 2010: 220). Yr amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 oedd 12 diwrnod gwaith (y gofyniad statudol yw 20 diwrnod gwaith). Roedd chwech o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn 2011/12 yn Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, a wnaed o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, a'r amser ymateb cyfartalog ar gyfer y ceisiadau hyn oedd 32 diwrnod (yr amser ymateb statudol yw 40 diwrnod).

Crynodeb o dargedau a chyflawniadau

	Targed	Cyflawnwyd yn 2011/12
Nifer yr ymwelwyr unigol dros gyfnod o bythefnos (2011)	3.5 miliwn	3.6 miliwn
Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon (yn llawn neu'n rhannol)	0	5
Tuedd i argymell (yn sicr) – perchnogion cychod (2011)	50%	38%
Tuedd i argymell (yn sicr) – defnyddwyr llwybrau tynnu (2011)	70%	60%
Credu bod camlesi yn rhan bwysig o dreftadaeth Prydain	90%	92%

GWARCHOD EIN CAMLESI A'N HAFONYDD

Mae'r adran hon yn trafod ein cyfraniad allweddol at warchod ein treftadaeth a'n hamgylchedd ac mae'n darparu gwybodaeth am y rhaglen cynnal a chadw a buddsoddi yn seilwaith amrywiol y dyfrffyrdd.

Gwarchod ein Treftadaeth Genedlaethol

Mae dyfrffyrdd yn rhan allweddol o'n treftadaeth genedlaethol, ac maent yn rhoi cyfle gwirioneddol heb rwystrau neu gyfyngiadau i bobl ryngweithio â hanes mewn ffordd ymarferol. Roeddent yn bwysig iawn i'r chwyldro diwydiannol ac i ddatblygiad Prydain fel un o brif wledydd gweithgynhyrchu a masnachu'r byd. Sbardunodd y dyfrffyrdd sawl datblygiad newydd a arweiniodd at chwyldro cymdeithasol ac economaidd.

Heddiw rydym yn gofalu am bron i 3,000 o adeileddau a bron i 100 o henebion. Nid darnau disymud mewn amgueddfeydd mo'r rhain, ond mae'r rhan fwyaf yn enghreifftiau y gall pobl eu gweld yn gweithio yn agos at eu cartrefi.

Eleni roedd dros 99% o'n ceisiadau am ganiatâd treftadaeth yn llwyddiannus. Cafodd llawer o adeileddau eu hadfer, ond mae'n bosibl mai Dyfrbont Lune ger Caerhifryn yw'r mwyaf trawiadol o ran maint a harddwch. Mae'r *Transport Trust* wedi cydnabod sawl safle arall fel safleoedd treftadaeth arbennig ac rydym wrth ein bodd â'r gefnogaeth iddynt. Rydym wedi canolbwyntio ar hyfforddiant sgiliau treftadaeth ac mae 61 o'n gweithwyr wedi ymrestru ar gwrs Sgiliau Treftadaeth NVQ3.

Cynyddodd nifer y bobl sy'n gwirfoddoli ar gyfer gweithgareddau treftadaeth 17.5% i 2,981 o oriau gwirfoddol (2011: 2,420 o oriau gwirfoddol) ac rydym yn disgwyl i'r cyfanswm gynyddu eto wrth i'r dyfrffyrdd gael eu trosglwyddo i'r sector elusennol. Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi adroddiad '*State of the Waterways Heritage*' sy'n adolygu ein strwythurau treftadaeth ac yn crynhoi ein gwaith. Mae'n cynnwys gwybodaeth a data yn ymwneud â'n hasedau treftadaeth adeiledig a'n gweithgareddau rheoli treftadaeth bob blwyddyn. Mae'r meysydd allweddol yn cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth a sgiliau treftadaeth; cydymffurfio â'r gyfraith; lleihau'r 'adeiladau mewn perygl'; datblygu hyrwyddwyr treftadaeth; recriwtio gwirfoddolwyr; a chydweithredu mwy â chefnogwyr a grwpiau allanol. Cyhoeddir yr adroddiad diweddaraf ar ein gwefan.

Cafodd ein gallu ym maes treftadaeth ei gydnabod gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil y llynedd yn y Gwobrau Pontydd a Seilwaith Hanesyddol. Sefydlwyd y gwobrau er mwyn cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth ac arloesedd ym maes cadwraeth. Fe gawsom glod arbennig am ddangos ymroddiad eithriadol i gynnal a chadw a gwella treftadaeth beirianeg. Fe gawsom ganmoliaeth hefyd am brosiect Vale Royal Lock ar Afon Weaver.

Gwarchod yr Amgylchedd

Wrth i'r dirwedd fynd yn fwy trefol a phrysur, mae'r dyfrffyrdd yn dod yn hafan leol bwysig i fywyd gwyllt. Mae 85% o'r boblogaeth wedi cytuno mewn arolygon bod ein dyfrffyrdd yn 'llawn bywyd gwyllt', o gymharu ag 83% y llynedd.

Yn 2011 cafodd dros 20,000 enghraifft o rywogaethau amrywiol eu gweld a'u cofnodi ar hyd a lled ein dyfrffyrdd gan y rhai a gymerodd ran yn ein harolwg bywyd gwyllt blynyddol. Dyma'r wythfed tro i ni gynnal yr arolwg, ac eleni roedd yn canolbwyntio ar ystlumod yn sgil y gostyngiad dramatig yn eu niferoedd ers y 1950au. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod nifer yr ystlumod a gafodd eu gweld ar ein camlesi a'n hafonydd y llynedd wedi cynyddu 9% er gwaethaf gostyngiad cyffredinol yn niferoedd y rhywogaeth ledled Prydain. Mae'r arolwg bywyd gwyllt yn tanlinellu pwysigrwydd ein camlesi a'n hafonydd fel coridorau bywyd gwyllt hanfodol sy'n darparu cynefinoedd diogel a bwyd ar gyfer rhywogaethau fel yr ystlum, y dyfrgi a glas y dorlan, gan osgoi peryglon y ffordd.

Rydym yn gweithio gyda grwpiau cadwraeth eraill a'n gwirfoddolwyr ein hunain ar amrywiaeth eang o brosiectau, gan gynnwys rheoli 73 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gwella bioamrywiaeth y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd, monitro rhywogaethau sydd wedi'u diogelu a rhai goresgynnol ac anffroddol, a gwella ansawdd cyffredinol y dŵr. Mae'n bleser gwirioneddol gweld dyfrffyrdd Dwyrain Llundain yn graddol adfywio a gwella o'u cyflwr llygredig blaenorol.

CYNNAL A CHADW EIN CAMLESI A'N HAFONYDD

Yn 2011/12, roedd ein gwariant uniongyrchol ar y dyfrffyrdd, a oedd yn cynnwys gwaith trwsio, cynnal a chadw, gwasanaethau cwsmeriaid a phrosiectau adfer, yn ogystal â chostau cysylltiedig gan dimau cymorth mewn meysydd technegol, diogelwch, dŵr, yr amgylchedd a threftadaeth, yn werth £125.7 miliwn (2011: £128.2 miliwn); sef 72% o'n holl wariant (2010: 70%).

Roedd y gwariant uniongyrchol hwn o £125.7 miliwn ar ein dyfrffyrdd yn cynnwys:

- £66.5 miliwn ar weithrediadau cwsmeriaid a gwaith cynnal a chadw craidd ar y dyfrffyrdd
- £18.9 miliwn ar waith seilwaith mawr
- £17.5 miliwn ar brosiectau gwella a ariennir gan drydydd parti
- £5 miliwn ar waith carthu

Trwy ganolbwyntio ar waith atgyweirio llai a ystyriwn yn 'flaenoriaeth uchel' yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 7,000 o atgyweiriadau ar gost o tua £6 miliwn, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn y blynyddoedd nesaf.

Rydym wedi cyflwyno dulliau gwell o ofalu am ein hasedau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cyflwyno rhaglen o Waith Cynnal a Chadw Ataliol Wedi'i Gynllunio sy'n arwain at ostyngiad yn nifer yr atgyweiriadau adweithiol, yn amharu llai ar gwsmeriaid ac yn gwella cylch oes ein hasedau. Er enghraifft, rydym wedi ymestyn oes giatau ein lociau i 26 mlynedd ar gyfartaledd o gymharu â 22 mlynedd yn 2009 – gan wella effeithlonrwydd yn sylweddol.

Rydym wedi gwella ein dulliau o reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag argloddiau a chylfatiau trwy wella ein prosesau 'canlyniadau methiant'. Drwy ymateb yn y modd hwn, llwyddwyd i atal Camlas Mynwy ac Aberhonddu rhag gorlifo, ac archwiliwyd ac atgyweiriwyd rhagor o gylfatiau, gan leihau'r tebygolrwydd y byddant yn dymchwel.

Gweithiodd ein staff a'n contractwyr yn galed i osgoi cyfyngiadau ar gamlesi a chau camlesi, yn enwedig yn ystod tymor prysur y cychod dros yr haf. Yn dilyn y lefelau isaf erioed o law yn yr hydref a'r gaeaf, gwariwyd £700,000 ar waith lliniaru sychder hanfodol yng Nghanolbarth a De-ddwyrain Lloegr. Roedd y gwaith yn cynnwys clirio ffrydiau llenwi camlesi, pwmpio a throsglwyddo dŵr ychwanegol i gronfeydd dŵr, gosod systemau monitro a rheoli dros dro ac ail-leinio nifer o giatau lociau a oedd yn gollwng dŵr yn y llefydd a effeithiwyd waethaf. Gwellodd y sefyllfa yn sylweddol diolch i'r holl fuddsoddiad hwn ynghyd â lefelau uchel o law yn y gwanwyn.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â chyflenwyr ein contractau cenedlaethol, ac mae dros 90% o'n holl wariant prynu yn mynd i gyflenwyr cenedlaethol neu gyflenwyr a ffefrir. Nid yw hyn yn golygu nad yw busnesau lleol yn elwa. Yn ôl gwaith ymchwil ar hapsampl o brosiectau a gyflawnwyd drwy ein prif gontract peirianeg, mae 78% o'r gost yn cael ei gwario trwy gadwyn gyflenwi a leolir o fewn dwy awr i'r gwaith. Yn yr un modd, mae'r contractwr sy'n rheoli llystyfiant yn defnyddio gweithwyr ac is-contractwyr lleol ar gyfer canran uchel o'r gwaith. Mae'r trefniadau hyn yn ein helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng y pris gorau a gwerth cyffredinol. Eleni rydym wedi atgyfnerthu ein trefniadau caffael ymhellach ac wedi dyfarnu'r contract am gynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau trydanol, fel pontydd siglen, lociau pŵer a phontydd sy'n codi, i May Gurney. Enillodd Vinci Facilities y contract ar gyfer gwaith cynnal a chadw, atgyweirio ac archwilio statudol adeiladau, yn ogystal â rhai gweithrediadau cynnal y dyfrffyrdd. Bydd y contractau hyn yn sicrhau arbedion cyfunol o 15%. Rydym wedi llwyddo i sicrhau effeithlonrwydd mewn ffyrdd eraill hefyd, gan gynnwys sicrhau gwelliannau mawr i ffioedd cynllunio peirianeg, a phenodi APCOA i fod yn gyfrifol am 13 o'n meysydd parcio talu ac arddangos. Y contractau cenedlaethol hyn yw un o'r rhesymau pam y gallwn weithredu â bron i 25% yn llai o staff o gymharu â 2003, gan nad oes angen rheolwyr lleol arnom sy'n pennu, yn trafod ac yn goruchwylio contractau lleol. Rydym hefyd wedi ailstrwythuro a chryfhau ein dulliau o reoli'r contractau hyn a chontractau eraill er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posibl ohonynt.

Cyflwr y dyfrffyrdd

Ein gweithgaredd craidd yw gofalu am ein dyfrffyrdd, sicrhau bod eu hadeiledd yn gadarn a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio, gan arwain at amrywiaeth o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Yn 2008/09, buom yn gweithio gyda Defra i ddatblygu dull o fesur cynnydd o safbwynt cyflwr ac ymarferoldeb cyffredinol ein camlesi a'n hafonydd, yn erbyn blwyddyn sylfaenol 2008. Mae Sgôr Stiwardiaeth y Rhwydwaith yn seiliedig ar nifer o ddangosyddion seilwaith, diogelwch ac arolygon cwsmeriaid, sy'n cael eu pwysoli a'u cyfuno i greu Mynegai Cyflwr y Dyfrffyrdd a Mynegai Budd Defnyddwyr. O waelodlin o 100 ar gyfer y ddau fynegai yn 2008/09, cynyddodd Mynegai Cyflwr y Dyfrffyrdd a'r Mynegai Budd Defnyddwyr i 107 yn 2009/10. Cynyddodd Mynegai Cyflwr y Dyfrffyrdd ymhellach i 117 yn 2010/11, ond lleihaodd y Mynegai Budd Defnyddwyr ychydig i 106. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys yr Alban. Mae'r sgoriau diweddaraf ar gyfer 2011/12 yn cael eu cyfrifo ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2012. Rydym hefyd yn creu gwaelodlin newydd ar gyfer yr holl sgoriau i adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr yn unig o dan y Canal & River Trust, Glandŵr Cymru. Cyhoeddir adroddiad ar ein gwefan.

Defnyddir y model 'Cyflwr Sefydlog' i gyfrifo amcangyfrif o'r gwariant blynyddol cyfartalog sydd ei angen i gadw'r dyfrffyrdd mewn cyflwr gweithredol rhesymol. Y gwariant gwirioneddol ar weithgareddau Cyflwr Sefydlog yn 2011/12 oedd £90.4 miliwn, (£66.5 miliwn ar waith cynnal a chadw craidd ar y dyfrffyrdd a gweithrediadau cwsmeriaid, £18.9 miliwn ar waith mawr a £5 miliwn ar garthu).

Adolygwyd y model y llynedd i ymgorffori enillion effeithlonrwydd diweddar ac mae'n ein helpu i reoli ein risgiau a dyrannu adnoddau. Mae'r gwaith yn cael ei wneud ar sail risgiau rhwng gwaith cyffredinol lleol a gwaith mawr a drefnir yn genedlaethol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar atgyweiriadau mwy cymhleth, atgyweiriadau bach wedi'u grwpio er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a'r rhan fwyaf o'r gwaith carthu.

Targedau a chyflawniadau cyflwr asedau

	Targed	Cyflawnwyd yn 2011/12
Prif asedau sy'n derbyn graddau D ac E*	Heb fod dros 22%	16.5%

* Ein nod yw sicrhau bod y strwythurau dyfrffyrdd, sef ein prif asedau, mewn cyflwr derbynol o ystyried ein cyfyngiadau ariannol. Bob blwyddyn, rydym yn mesur hyn trwy eu graddio o A i E - A yw'r cyflwr gorau ac E yw'r gwaethaf. Yn 2011/12, aethom ati i leihau'r strwythurau gradd D ac E i lai na 17.9% yn gyfanredol, o 30% dros y deng mlynedd diwethaf. Mae graddio ein hasedau fel hyn yn ein helpu i nodi'r rhai sydd angen eu hatgyweirio ar frys.

Gwneud arbedion effeithlonrwydd

Rydym yn parhau i symleiddio ac ail-drafod contractau cenedlaethol, chwilio am arbedion effeithlonrwydd, arbedion costau a gwasanaethau gwell ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Y llynedd aethom ati i adolygu arferion gwaith gweithredwyr glannau camlesi yng Nghymru a Lloegr. Prosiect ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau oedd hwn gyda'r nod o nodi'r lefelau priodol o hyblygrwydd a chynhyrchiant sydd eu hangen ar y dyfrffyrdd yn y dyfodol. Un o'r amcanion allweddol oedd sicrhau mai gwerth am arian a gwasanaeth cwsmeriaid oedd y prif flaenoriaethau, gan sicrhau hefyd ein bod yn amddiffyn ac yn diogelu ein gweithlu hynod gymwys, medrus ac ymroddedig. Ym mis Awst cyflwynwyd cyfres o raglenni gwaith peilot ar gyfer dulliau gweithio hyblyg newydd ac oriau blynyddol. Bydd y cynllun peilot yn para am ddeuddeg mis a bydd yn cael ei werthuso cyn i unrhyw newidiadau gael eu cyflwyno yn ddiweddarach eleni.

Mae'r tîm gofal cwsmeriaid yn derbyn dros 70,000 o alwadau ffôn gwasanaeth cwsmeriaid, 13,000 o negeseuon e-bost a 103,000 o alwadau ffôn switsfwrdd bob blwyddyn. Er mwyn gwella gofal

cwsmeriaid, rydym wedi trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaeth cwsmeriaid i'r darparwr arbenigol, Moneypenny, yng Nghymru a Lloegr. Maent yn darparu tîm ymroddedig wedi'i hyfforddi'n dda i ofalu am ein holl alwadau ffôn. Yn ogystal â gwella'r ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid, bydd y contract yn arbed tua £35,000 i ni erbyn blwyddyn tri.

Mae'r timau technegol a gweithrediadau yn cyflwyno dulliau newydd o weithredu'r rhaglen gwaith mawr yn fwy effeithiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys datblygu rhaglen dreigl tair blynedd i wneud y gwaith mawr yn y gwanwyn/haf yn hytrach na'r gaeaf heb orfod cau neu 'atal' y dyfrffyrdd. Mae gwneud gwaith mawr ar hyd y flwyddyn yn rhoi mwy o amser i ni gynllunio a gwella cynhyrchiant, wrth i ni fanteisio ar y tywydd gwell a'r dyddiau hirach. Bydd y trefniant hwn yn rhoi mwy o werth am arian i ni yn yr hirdymor, ac rydym yn parhau i ddefnyddio technoleg newydd a thechnoleg sy'n datblygu heddiw. Mae peirianwyr yn defnyddio dyfeisiau llaw System Lleoli Byd-eang i gofnodi cyflwr adeileddau hanesyddol ac mae swyddogion gorfodi yn eu defnyddio i helpu i leihau nifer yr achosion o osgoi prynu trwyddedau cychod.

Rydym yn defnyddio technoleg SCADA (rheoli goruchwyliaeth a chaffael data) i fonitro lefelau'r dŵr mewn amser real, ac eleni mae system cyfnewid data fyw ar waith ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n galluogi staff i weld dros 100 o safleoedd monitro Asiantaeth yr Amgylchedd ar ein mewnwyd ac ar ffonau symudol â Phrotocol Cymwysiadau Di-wifr (WAP).

Yn yr Alban rydym yn gweithio gyda Chanolfan Systemau Synwryddion yr Alban, consortiwm o sefydliadau academaidd blaenllaw, diwydiant a sefydliadau sector cyhoeddus, sy'n gweithio'n benodol i ddatblygu system rhybuddio cynnar i nodi amodau methiant posibl ledled y seilwaith.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau i gyfathrebu gyda'r cyhoedd a'n pobl. Mae cymunedau ar-lein yn ffynnu trwy dudalennau sylwadau rhyngweithiol ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Facebook a Twitter. Fel rhan o brosiect a ariannwyd gan yr UE yn Bingley ar Gamlas Leeds a Lerpwl, rydym yn defnyddio dulliau dehongli arloesol o ymgysylltu ag ymwelwyr. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys datblygu animeiddiadau digidol, darparu taith ffonau deallus trwy ddefnyddio codau Ymateb Cyflym sy'n cysylltu â'n gwefan, a chynllun treialu ffonau deallus System Lleoli Byd-eang.

Rydym yn defnyddio negeseuon testun ar ffonau symudol i hysbysu staff y glannau (sy'n gweithio o bell yn aml) am newyddion pwysig y cwmni yn brydlon. Rydym wedi ymestyn y gwasanaeth eleni i hysbysu cwsmeriaid cychod bod eu cais am drwydded, neu eu cais i adnewyddu eu trwydded, yn mynd trwy'r broses drwyddedu.

Mae'r cyfuniad o ddulliau gwaith newydd a thechnoleg newydd wedi lleihau ein costau gweithredu blynyddol £20 miliwn dros y pum mlynedd diwethaf.

Cydweithio ar gyfer Dyfodol Gwyrdd

Yn Hydref 2010, lanswyd ein 'Cynllun Gwyrdd' er mwyn symleiddio'r modd rydym yn mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy fel ei fod yn hawdd i'w ddeall ac yn cynnwys targedau clir y gellir eu cyflawni. Mae'r Cynllun Gwyrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes a fydd yn flaenoriaeth i ni o safbwynt ymdrechion ac adnoddau mewnol: Ynni, Adnoddau, Gwastraff a Manteision Amgylcheddol a Chyhoeddus.

Mae'n Cynllun Rheoli Carbon yn pennu targed i ni leihau ein hallyriadau carbon 15% erbyn 2015 (ar sail gwaelodlin 2009/10) ac mae'n argoeli'n dda i ni gyrraedd y targed. Aethom ati i ddechrau nifer o gynlluniau lleihau carbon yn 2011/12. Bydd y prosiect i osod gyriannau cyflymder amrywiol mewn pum gorsaf bwmpio (Seend, Semington, Bradford-upon-Avon, Wooton Rivers a Caen Hill) yn lleihau ein defnydd o drydan ar y safle. Bydd ein cynllun i osod paneli solar ffotofoltaig yn ein swyddfeydd yn Stoke-on-Trent hefyd yn gwneud iawn am y trydan a ddefnyddir yn yr orsaf lanweithiol gyfagos ac yn creu incwm trwy Dariff Cyflenwi Trydan y llywodraeth. Bydd (is) fesuryddion call ar safleoedd angori a reolir yn ein galluogi i ddefnyddio data a monitro diffygion o bell a sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn y biliau cywir. Rydym hefyd wedi gwella cyfleusterau fideo gynadledda yn ein swyddfeydd a fydd yn helpu i leihau milltiroedd busnes. Yn ogystal, bydd datblygu 'carboniadur cyfarfodydd' yn ein helpu i ddadansoddi cost cyfarfodydd o safbwynt carbon.

Mae ein tîm cyfleustodau yn ategu ein Cynllun Gwyrdd trwy gydweithio â diwydiant i archwilio a gweithredu cynlluniau sy'n lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac yn sicrhau incwm hanfodol. Rydym yn rhagweld incwm o ffynonellau ynni adnewyddadwy (trydan dŵr a gwynt) gwerth £230,000 y flwyddyn erbyn 2015.

Rydym yn parhau i gydweithio â nifer o ddatblygwyr er mwyn gosod cynlluniau trydan dŵr bach ar goredau afonydd addas. Mae nifer o'r rhain wedi llwyddo i gael trwyddedau gan Asiantaeth yr Amgylchedd a chaniatâd cynllunio. Bydd y gwaith o adeiladu un o'r cynlluniau hyn yn dechrau yn 2012 ac mae cynlluniau trydan dŵr peilot yn yr arfaeth ar gyfer camlesi Crinan a Caledonian yn yr Alban.

Hefyd, mae modd defnyddio'r tiroedd ar lannau camlesi ac afonydd i godi melinau gwynt, ac rydym yn gweithio gyda *Partnership for Renewables* gan edrych ar y posibilïadau ar gyfer nifer o safleoedd. Mae Caniatâd Cynllunio wedi'i roi i godi un tyrbîn 1.5MW yng Nghronfa ddŵr Boddington, a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2012/13. Gallai'r tyrbîn hwn arbed tua 1,412 tonnell o allyriadau CO2 bob blwyddyn.

Trwy ddefnyddio dŵr camlas, gall busnesau gwtogi ar eu costau ynni a'u hól troed carbon yn sylweddol. Mae cyfleuster ailgylchu gwastraff arloesol ar gyfer nwyddau hylendid amsugol (fel cewynnau) wedi agor yn West Bromwich yn ddiweddar. Mae gwaith ailgylchu Knowaste yn echdynnu 146 megalitre o ddŵr bob blwyddyn. Mae'r dŵr yn cael ei drin a'i ddefnyddio i olchi'r plastig o'r nwyddau hyn cyn iddynt gael eu hailgylchu fel cydrannau plastig a theils to.

Rydym hefyd yn gweithio gyda nifer o ddarparwyr dŵr i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio camlesi i drosglwyddo dŵr ar raddfa fawr. Fodd bynnag, astudiaeth ddichonoldeb gynnar iawn yw hon ar hyn o bryd.

DIOGELWCH

Mae diogelwch gweithwyr cyflogedig, contractwyr, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr â'r gamlas a'r glannau yn ganolog i bopeth a wnawn.

Digwyddiadau diogelwch gweithwyr cyflogedig Dyfrffyrdd Prydain

Riddor reportable incidents - Digwyddiadau i'w hadrodd yn unol â RIDDOR

Lost time incident - Digwyddiadau lle collwyd amser

First aid cases - Achosion cymorth cyntaf

Injury – no treatment – Anaf – dim triniaeth

Rydym yn parhau i roi pwyslais sylweddol ar ymddygiad diogel er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio mor ddiogel â phosibl. Mae'r rhaglen ddiogelwch yn gofyn i staff ar bob lefel nodi a mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n eu rhoi nhw neu eu cydweithwyr mewn perygl o gael anaf. Mae'r graff yn dangos sut rydym wedi llwyddo i leihau cyfanswm y digwyddiadau dros amser ac rydym wedi cynnal y gwelliant hwn trwy leihau nifer yr anafiadau difrifol.

Mae defnyddio contractwyr cenedlaethol yn ein helpu i wneud ein gwaith yn effeithiol a sicrhau bod ein safonau ansawdd a diogelwch yn cael eu bodloni. Cadarnhaodd archwiliad mewnol yn 2011 fod lefel uchel o gydymffurfiaeth â safonau ymysg ein contractwyr.

Cynyddodd nifer y sefydliadau gwirfoddol sy'n goruchwyllo eu hunain yn ystod y flwyddyn. Erbyn hyn mae gennym 30 o grwpiau sydd wedi'u hasesu ac sy'n gymwys i oruchwyllo eu hunain o ddydd i ddydd ar gyfer tasgau penodedig risg isel, ac yn gyffredinol ni fu unrhyw anafiadau adroddadwy i'n gwirfoddolwyr.

Targedau a chyflawniadau Safonau Diogelwch Gofynnol

	Targed	Cyflawnwyd yn 2011/12
Cydymffurfio â'r Safonau Diogelwch Gofynnol	100%	98%

Rydym wedi gosod targed uchelgeisiol i ni ein hunain, sef cydymffurfio 100% â'n 47 o Safonau Diogelwch Gofynnol, sy'n ymwneud yn bennaf â safonau diogelwch cwsmeriaid camlesi fel ysgolion lociau, gweithrediadau giatiau lociau, glaniadau lociau ac agweddau cysylltiedig. Mae'r ffaith fod gennym adnoddau cyfyngedig i reoli 2,200 o filltiroedd yn ei gwneud yn anrnod y bydd bylchau rhwng atgyweiriadau sydd angen eu gwneud a'r gwaith sy'n cael ei wneud. Mae hyn yn golygu na allwn gydymffurfio 100% drwy'r amser. O ystyried hyn, roeddem yn hapus i sicrhau canran gydymffurfio o 98% ar gyfartaledd yn 2011/12.

Mae cyflwyno'r safonau diogelwch gofynnol yn 2008 wedi ein helpu i gyrraedd ein targedau ar gyfer lleihau nifer y digwyddiadau seilwaith yn ymwneud â phobl sy'n ymweld â'n dyfrffyrdd. Yn 2011/12, derbyniodd Dyfrffyrdd Prydain 290 o adroddiadau yn ymwneud â digwyddiadau lle'r oedd aelodau'r cyhoedd wedi dioddef anaf neu ddifrod i'w heiddo. Roedd 27 neu 9.4% o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â diffyg yn y seilwaith fel twll ar lwybr tynnu, offer padlo diffygiol neu rodfa bren yn methu.

Grŵp Dyfrffyrdd Prydain

	2011/12	2010/11	2009/10	2008/09	2007/08
CRYNODEB O GANLYNIADAU ARIANNOL £M					
Cyfanswm referniw	180.5	176.5	187.1	223.3	219.1
Elw / (diffyg) gweithredu	7.9	(3.7)	(5.3)	5.6	(1.5)
Llog net sy'n daladwy	(3.0)	(4.6)	(7.8)	(3.4)	(0.2)
Cyfran elw a cholled o fentrau ar y cyd	(0.3)	(1.8)	(18.3)	(33.3)	(2.4)
Elw ar werthu eiddo	2.1	11.0	5.3	4.7	19.4
Elw / (colled) ar ailbrisio eiddo buddsoddi	62.7	4.4	7.8	(66.4)	17.2
Elw ar waredu mentrau ar y cyd	7.9	-	-	-	-
Gwarged / (diffyg) cyn treth	77.3	5.3	(18.3)	(92.8)	32.5
Cronfeydd wrth gefn y grŵp	451.6	394.4	350.2	378.7	477.8

Perfformiad ariannol

Gwnaethom elw o £10 miliwn ar ôl cael gwared ar eiddo a mentrau ar y cyd, gan gynnwys elw o £8.6 miliwn ar ôl cael gwared ar ein buddsoddiad ym menter ar y cyd Wood Wharf. Cynyddodd gwerth ein heiddo buddsoddi anweithredol £62.7 miliwn eleni, gyda chynnydd o £61 miliwn yng ngwerth rhydd-ddaliad Wood Wharf yn bennaf gyfrifol amdano.

Rydym wedi gwerthu ein buddsoddiad yn ein cyd-fenter datblygu eiddo fwyaf, Partneriaeth Wood Wharf Cyfyngedig yn Llundain, i Grŵp Canary Wharf ccc. Bydd y cytundeb yn arwain at dderbyniad cyfalaf o £52.4 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Rydym hefyd wedi ailstrwythuro les tir y safle er mwyn cynyddu'r rhent tir am y 250 mlynedd nesaf, a fydd yn creu £6 miliwn o incwm y flwyddyn i

gynnal a chadw'r dyfrffyrdd erbyn 2016. Bydd Grŵp Canary Wharf yn cymryd cyfrifoldeb am y safle 16.8 erw a fydd yn newid i fod yn gynllun datblygu defnydd cymysg yn agos i ardal fusnes a siopa Canary Wharf.

Bydd y cynnydd yn rhent y tir a'r incwm ychwanegol yn sgil ail-fuddsoddi'r derbyniad cyfalaf yn creu bron i £10 miliwn o incwm blynyddol maes o law, ac mae'r ffigur hwn yn debygol o gynyddu wrth i Grŵp Canary Wharf ddatblygu'r safle.

Yn gyffredinol, fe wnaethom ragori ar ein cyllidebau refeniw, gan greu gwarged gweithredol ar ôl treth o £13.6 miliwn, a fydd yn cael ei wario ar y dyfrffyrdd y flwyddyn nesaf. Cynyddodd cronfeydd wrth gefn y Grŵp hefyd i £451.6 miliwn o £394.4 miliwn, yn bennaf oherwydd blynyddoedd o waith i fanteisio'n well ar rai asedau eiddo, yn enwedig Wood Wharf. Mae'r twf cyfalaf mawr yn y portffolio wedi cynyddu ein cyfrifiad o gyfanswm enillion Dyfrffyrdd Prydain ar eiddo buddsoddi di-ddyled sy'n cael ei ddal yn uniongyrchol i 24% am y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn sylweddol uwch na'r cyfanswm enillion blynyddol o 6.1% a adroddwyd ym mynegai chwarterol IPD y DU ar 31 Mawrth 2012 lle mae gwerthoedd cyfalaf yn y farchnad eiddo wedi bod yn fflat yn gyffredinol.

Mae rhagor o fanylion ar ein perfformiad ariannol i'w gweld yn yr adran Adolygiad Ariannol ar dudalennau 30 i 37.

Grŵp Dyfrffyrdd Prydain

ADOLYGIAD CYMRU A LLOEGR

Mae ein strategaeth yng Nghymru a Lloegr yn cyd-fynd ag amcanion Defra, adran y llywodraeth sy'n ein noddi, sy'n gofyn inni wneud y canlynol:

- 1) cynnal rhwydwaith y dyfrffyrdd mewn cyflwr boddhaol;
- 2) cyflawni gweledigaeth tymor hirach y llywodraeth/Dyfrffyrdd Prydain o symud tuag at bod yn fwy hunangynhaliol;
- 3) darparu amrywiaeth o fanteision ychwanegol i'r cyhoedd.

Mae'r adran hon yn ategu'r wybodaeth sydd yn yr Adolygiad Busnes gydag astudiaethau achos manylach sy'n dangos y cynnydd da a wnaethom yn erbyn blaenoriaethau 1 a 3 yn ystod y flwyddyn. Mae'r Adolygiad Ariannol yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad masnachol.

CYNNAL RHWYDWAITH Y DYFRFFYRDD MEWN CYFLWR BODDHAOL

Rydym yn gyfrifol am waith cynnal a chadw amrywiol, heriol ond hynod bleserus ar tua 2,000 o filltiroedd o ddyfrffyrdd, 74 cronfa ddŵr, 3,000 o bontydd, 65 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a phedwar safle treftadaeth y byd yng Nghymru a Lloegr.

Ein 'diwrnodau agored' i'r cyhoedd

Am yr ail flwyddyn yn olynol, aethom ati i drefnu cyfres o deithiau 'y tu ôl i'r llenni' i'r cyhoedd ddysgu am ein rhaglen atgyweirio a chynnal a chadw yn ystod y gaeaf. Cynhaliwyd dau ar bymtheg o ddiwrnodau agored ledled y wlad, gyda phobl yn cael cyfle i ymweld â chamlas a oedd wedi'i draenio, gwyllo giatiau lociau yn cael eu symud i mewn ac allan ar graen, a dysgu am y crefftwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau bod ein dyfrffyrdd mewn cyflwr da.

Roedd y diwrnodau agored yn boblogaidd iawn ac yn ffordd hynod effeithiol o ddangos ein gwaith hanfodol i'r cyhoedd. Mwynheuodd 2,000 a mwy o bobl daith gerdded dywysedig a sgysiau yn Lociau Diglis ar Afon Hafren, a daeth 7,500 o bobl i lociau Five Rise, Bingley, sy'n Adeilad Rhestredig Gradd I, ar Gamlas Leeds a Lerpwl yn Swydd Efrog ar benwythnos oer ym mis Ionawr.

Roedd rhaglen cynnal a chadw'r gaeaf yn cynnwys newid tua 200 o giatiau lociau, a mwynheuodd dros 1,000 o bobl ein teithiau tywysedig i ddysgu sut mae giatiau lociau yn cael eu gwneud yn ein gweithdai yn Stanley Ferry, Swydd Efrog a Bradley, Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Rhaglen waith

Mae ein rhaglen waith yn hynod amrywiol ac mae pob prosiect yn wynebu heriau unigryw. Roedd y gwaith eleni yn cynnwys adfer Loc Hanham ar Gamlas Kennet ac Avon. Mae'r loc hwn dros 280 oed ac yn un o'r hynaf yn y wlad. Parhaodd y gwaith adfer gwerth £186,000 am bum wythnos, ac roedd yn cynnwys gwaith atgyweirio manwl iawn ar waliau cerrig y loc o'r ddeunawfed ganrif. Oherwydd y lleoliad gwledig diarffordd, bu'n rhaid i ni greu llwybr dros dro i gyrraedd y safle, a defnyddiwyd cwch camlas traddodiadol i gludo'r giatiau i'r safle.

Er mwyn atgyweirio Dyfrbont Marple, adeilad Rhestredig Gradd I 200 oed ar Gamlas Peak Forest, bu'n rhaid i gontractwyr arbenigol abseilio 100 troedfedd oddi ar yr adeiladwaith i'w atgyweirio a chael gwared ar lystyfiant a oedd yn difrodi'r gwaith maen.

Mae llawer o'n rhwydwaith hefyd yn darparu cynefinoedd pwysig ar gyfer rhywogaethau bywyd gwyllt prin a rhai sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith. Er enghraifft, cyn mynd ati i atgyweirio'r gwaith maen ar Ddyfrbont Calder, adeilad Rhestredig Gradd I ar Gamlas Leeds a Lerpwl, bu'n rhaid i ni gynnal archwiliad am arwyddion o weithgarwch ystlumod yn yr adeiladwaith neu'r cyffiniau ac yng nghoridor yr afon. Roedd yr archwiliad yn hanfodol i ni allu cynllunio'r gwaith yn ofalus a sicrhau nad oeddem yn tarfu ar unrhyw gynefinoedd clwydo ystlumod.

Yn ogystal â gofalu am y casgliad mwyaf ond dau o adeileddau rhestredig yn y wlad, rydym hefyd yn rheoli safleoedd mwy modern. Enghraifft dda o hyn yw ein hadeiladwaith rheoli dŵr yn Three Mills Lock yn Llundain. Defnyddiwyd dulliau peirianeg ac adeiladu arloesol i godi'r adeiladwaith hwn, a hwn oedd loc cyntaf i'w adeiladu yn Llundain ers dros 20 mlynedd. Enillodd y prosiect wobr yng nghategori Dylunio ac Adeiladu Gwobrau Waterways Renaissance y llynedd a daeth yn ail yng nghategoriâu Adfer ar sail Ardal a Rheoli Peryglon Llifogydd.

DARPARU MANTEISION I'R CYHOEDD

Amcangyfrifir bod un filiwn ar ddeg o bobl yn mwynhau ein dyfrffyrdd heddiw, gan eu defnyddio at amrywiaeth ehangach o ddibenion nag erioed. Mae gallu'r dyfrffyrdd i barhau i fod yn berthnasol i fywydau pobl ym Mhrydain heddiw wedi'u helpu i oroesi a ffynnu.

Diogelu a hyrwyddo treftadaeth

Mae camlesi, afonydd, cronfeydd dŵr a dociau hanesyddol Prydain yn drysor cenedlaethol sy'n cysylltu pobl â'r oes ddiwydiannol. Rydym yn diogelu ac yn rheoli ein treftadaeth adeiledig, archaeoleg a thirweddau o waith dyn i sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu eu defnyddio bob dydd a bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu eu mwynhau. Fel ceidwaid cyfoeth o adeiladau hanesyddol, mae'n hanfodol bwysig i ni ddiweddarau a datblygu sgiliau ein gweithlu ymroddgar yn gyson.

Cynyddodd cyfraniad gwirfoddolwyr eleni hefyd. Yn Fenny Compton ar Gamlas Rhydychen, helpodd grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig i adfer o'dyn frics ar lan y gamlas sy'n dyddio yn ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a fydd yn gwneud brics maes o law ar gyfer prosiectau camlesi yn y dyfodol. Aeth gwirfoddolwyr lleol ati i glirio'r llystyfiant a gweithiodd grŵp o wirfoddolwyr profiadol o Urdd y Bricwyr gyda ni ar y gwaith brics. Gwnaeth gwirfoddolwyr treftadaeth gyfraniad mawr at ail-agor Camlesi Droitwich, a derbyniodd gwirfoddolwyr grant gan English Heritage i weithio ar Lociau Grisiog Hanwell yn Llundain.

Buom yn cymryd rhan eto eleni yn rhaglen genedlaethol 'Diwrnodau Agored Treftadaeth', gan gynnal digwyddiadau ledled y wlad. Cynhaliwyd un digwyddiad ar Ddyfrbont Lune, sy'n adeilad Rhestredig Gradd I 200 oed ar Gamlas Lancaster a gafodd grant gwerth £1 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i helpu i weddnewid yr adeiladwaith a gwella ymnediad.

Roeddem wrth ein bodd i dderbyn Gwobr Pontydd ac Isadeiledd Hynafol Sefydliad y Peirianwyr Sifil am atgyweirio simnai Gorsaf Bwmpio Widcombe a phont droed Lociau Widcombe ar Gamlas Kennet ac Avon yng Nghaerfaddon. Cafodd simnai'r hen dŷ pwmpio, a adeiladwyd ym 1840, ei dymchwel, a diolch i rodd hael gan Gronfa Gwella Treftadaeth y Byd Caerfaddon, bu modd i seiri maen arbenigol atgyweirio'r gwaith maen ac ail-adeiladu'r simnai. Bydd llwybr sain, taith gerdded gylchol a chyfleusterau dehongli yn cael eu gosod ar hyd y gamlas yn ddiweddarach eleni.

Annog bywyd gwyllt

Mae'r dirwedd yn newid yn gyson, ac mae gwaith ymchwil yn dangos bod camlesi ac afonydd yn cael eu gweld fel hafan hanfodol i fywyd gwyllt lleol ffynnu. Ym mhob agwedd ar ein gwaith, rydym yn ceisio parchu a gwella'r amgylchedd naturiol sy'n helpu i wneud ein dyfrffyrdd yn llefydd mor arbennig.

Cofnodwyd dros 120 o welliannau bywyd gwyllt yn ystod 2011 gan gynnwys cynefinoedd y glannau, gosod bocsys ystlumod ac adar, plannu coed a chynnal poblogaethau o blanhigion dyfrol ar ein Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Cyflwynwyd rhaglen i blannu coed llwyf sy'n gallu gwrthsefyll clefydau. Cyn i glefyd llwyfen yr Isalmaen ddinistrio ein rhywogaethau brodorol, roedd coed llwyf yn rhan allweddol o goridor y dyfrffyrdd, a defnyddiwyd eu pren hirhoedlog ar gyfer padlau llifddorau.

Rydym wedi helpu i wella cynefinoedd y glannau, gan ddefnyddio dulliau peirianeg werdd ar sawl safle, gan gynnwys: Afon Lee trwy'r Parc Olympaidd; fel rhan o'r gwaith carthu ar Gamlas Kennet ac Avon sy'n gartref i boblogaeth ffyniannus o lygod y dŵr; ac ar Gronfa Ddŵr Olton fel rhan o'r mesurau i reoli twf algaid.

Mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynol

Yn ogystal â denu planhigion ac anifeiliaid brodorol, mae dyfrffyrdd yn denu rhywogaethau llai dymunol, goresgynol hefyd sy'n gallu niweidio'r amgylchedd a'n camlesi ac afonydd. Yn ystod y flwyddyn gwariwyd dros £650,000 ar reoli planhigion goresgynol, a neilltuwyd adnoddau sylweddol i reoli planhigion anffodorol goresgynol a blymau algaid. Gwariwyd dros £350,000 ar reoli llystyfiant, dros £500,000 ar glirio chwyn o sianeli, a £130,000 ar chwistrellu chwyn ar y tir. Cliriwyd tyfiant oedd yn gysgod dros SoDdGA Camlas Gul Huddersfield, a newidiwyd ein rheolaeth o llystyfiant yn Fenny Compton i greu cynefin i löynnod byw.

Ar hyd Camlas y Grand Union yn Brentford, aethom ati i helpu i atal gwyfyn ymdeithiwr y derw rhag lledaenu. Rhywogaeth oresgynol, anffodorol yw hon sy'n bwyta dail coed derw, ac efallai eu lladd nhw maes o law. Gan nad oes modd defnyddio plaladdwyr wrth ymyl y dŵr, cafodd y creaduriaid eu 'hwfro' o'r coed gan weithwyr arbenigol.

Fe wnaethom ryddhau miloedd o wyfynod yr ŷd sy'n bwyta chwyn i Gamlas Bridgwater a Taunton mewn ymgais i fynd i'r afael â rhedyn y dŵr Gogledd America (*Azolla filiculoides*), rhywogaeth oresgynol sy'n gallu achosi problemau mawr wrth dyfu'n wyllt, gan niweidio pysgod a mathau eraill o fywyd gwyllt. Gallai'r datblygiad hwn arbed arian i ni yn y dyfodol, gan ein bod wedi gwario dros £400,000 ar glirio rhedyn y dŵr a chwyn dyfrol eraill o'n dyfrffyrdd yn y gorffennol.

Gwella mynediad

Yn ôl ein gwaith ymchwil, llwybrau tynnu sy'n gyfrifol am 96% o holl ddefnydd ein camlesi a'n hafonydd. Mae ganddynt ffordd arbennig o gysylltu pobl, natur a hanes, ac rydym yn gweithio'n dda gydag awdurdodau lleol a chyrrff ariannu i barhau i ddatgloi potensial llwybrau tynnu i ddarparu amrywiaeth eang o fanteision i'r cyhoedd.

Fel arfer, wrth wella 1km o lwybr tynnu camlas, rydym yn denu 40,000 o ymweliadau ychwanegol ac yn creu £50,000 o wariant ychwanegol gan ymwelwyr (gan sicrhau 1.3 swydd mewn siopau a thafarndai lleol). Amcangyfrifir bod manteision ansawdd bywyd yn werth tua £20,000, manteision iechyd yn werth hyd at £18,000 (yn sgil mwy o bobl yn gwneud ymarfer corff), a disgwylir arbed tua 100 tonnell o CO2 bob blwyddyn wrth i bobl feicio neu gerdded yn hytrach na theithio mewn car.

Cawsom gyllid allanol gwerth dros £14 miliwn yn 2011/12 ar gyfer amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys gwella llwybrau tynnu, gwarchod glannau, dehongli, gwaith adfer mawr ar adeileddau treftadaeth a gwelliannau i'r amgylchedd gan gynnwys carthu.

Creu llwybrau gwyrddach a diogelach rhwng Swydd Derby a Swydd Gaerlŷr

Yn ystod y flwyddyn, codwyd pont £1.4 miliwn, 52 metr dros yr Afon Trent, gan greu cyswllt pwysig rhwng Swydd Derby a Swydd Gaerlŷr. Llwyddodd y bont i adfer llwybr poblogaidd ar draws yr afon a gollwyd pan gaeodd Pont Long Horse yn 2002. Cyfrannodd Cyngor Sir Swydd Derby £213,000 a Chyngor Sir Swydd Gaerlŷr £15,000. Codwyd £303,000 arall tuag at gost y prosiect trwy grantiau gan sefydliadau eraill.

Gwelliannau cymunedol ar hyd Camlas Swydd Stafford a Swydd Gaerwrangon

Cefnogwyd ramp gwerth £50,000 a gynlluniwyd i gydymffurfio â rheoliadau anabledd a gwella mynediad yn sylweddol ar hyd Camlas Swydd Stafford a Swydd Gaerwrangon. Dyma enghraifft wych o brosiect cymunedol lle'r oedd yr angen wedi'i nodi gan grŵp cymunedol lleol gweithgar, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol peirianeg sifil a lwyddodd o dan ein harweiniad i gynllunio'r cyfleuster, gwneud cais am arian grant a gweithio'n agos gyda'r contractwr i wneud y gwaith.

Canllawiau ar gynllunio llwybrau tynnu

Yn dilyn ymgynghoriad eang, aethom ati ar ddechrau 2012 i lunio canllawiau newydd ar gynllunio llwybrau tynnu. Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr at y ddogfen gan sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Bysgota, Clwb Teithiau Beicio, y Cerddwyr, Grŵp Gweithredu Llwybrau Tynnu a Chymdeithas Genedlaethol y Perchnogion Cychod. Bydd y canllawiau yn helpu gyda'r broses o ddatblygu cynlluniau llwybrau tynnu ac yn cynnwys cyngor ar leoliad, gwaith cynnal a chadw, cynllunio a phrosesau ymgynghori.

Mynediad i ieithoedd lleiafrifol

Mae'r holl waith cyfathrebu a gweithgareddau cyhoeddus a wnawn yng Nghymru yn ddwyieithog. Daeth ein Cynllun Iaith, sy'n cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg, i rym ym mis Mawrth 2007 ac rydym yn parhau i weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gyflawni ein cynllun gweithredu. Mae ein gwaith cyfathrebu dwyieithog yn cynnwys deunyddiau darllen corfforaethol, datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau yn ogystal ag arwyddion gwybodaeth i ymwelwyr ac arwyddion am weithgareddau, a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys ein cynllun iaith, ewch i'n gwefan.

Cychod

Mae effaith y dirwasgiad economaidd i'w weld yn glir bellach yn nifer y trwyddedau cychod sy'n cael eu rhoi. Rydym wedi sylwi yn y gorfennol bod y galw am drwyddedau yn arafach ar adegau anodd. Y tro hwn, mae rhywfaint o'r effaith wedi'i chuddio gan ychydig o dueddiadau gwahanol.

Yn gyntaf, mae nifer y bobl sy'n osgoi talu'r drwydded wedi gostwng 7% i 3.4% ym mis Mawrth 2012 ers i ni fabwysiadu gweithdrefnau monitro a gorfodi newydd yn 2007. Cafodd 860 o gychod newydd sbon eu trwyddedu am y tro cyntaf yn 2007 (y nifer fwyaf erioed), ffigur sydd wedi disgyn i 325 yn 2011.

Yn ail, mae'r galw am angorfeydd preswyl parhaol yn tyfu, ac rydym wrthi'n chwilio am safleoedd newydd posibl yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr lle mae prinder angorfeydd. Mae polisi'r Llywodraeth yn helpu'r sefyllfa erbyn hyn yn dilyn cadarnhad y Gweinidog Tai ym mis Awst 2011 y gallai awdurdodau lleol hawlio Bonws Cartrefi Newydd am gymeradwyo angorfeydd preswyl.

Rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r her o orfodi Adran 17(c) o Ddeddf Dyfrffyrdd Prydain 1995 sy'n datgan bod rhaid i gychod fod ag angorfa gartref oni bai eu bod yn cael eu defnyddio yn ddilys ar gyfer hwylio gydol cyfnod y drwydded neu 'ganiatâd perthnasol'. Fe'n calonogwyd gan y ffaith fod ein dehongliad o'r ddeddf wedi'i gymeradwyo i raddau helaeth gan farnwr yn y llys sirol ym mis Medi 2010 ac yn sgil y dyfarniad, gyda chymorth Cymdeithas Genedlaethol y Perchnogion Cychod, cyhoeddwyd Canllawiau Angori diwygiedig yn 2011.

Parhaodd yr Uned Marinas Newydd i gefnogi busnesau sy'n bwriadu datblygu marinas newydd, ac agorwyd 674 o angorfeydd newydd yn ystod y flwyddyn. Cafwyd gostyngiad bach ond disgwyliedig yn nifer y datganiadau o ddiddordeb newydd yn 2011, ond mae 2,700 o angorfeydd wedi cael caniatâd cynllunio ac yn disgwyl i gael eu hadeiladu.

Roedd rhaglen waith y tîm cenedlaethol a sefydlwyd yn 2009 i reoli ein hangorfeydd hirdymor a reolir yn uniongyrchol yn dechrau dwyn ffrwyth yn 2011/12. Yn dilyn archwiliad manwl o gyflwr ffisegol y safleoedd, cafwyd buddsoddiad gwerth £330,000 ar gyfer atgyweirio muriau dyfrffyrdd, arwynebau gwrth-lithro, cylchoedd angori a gwelliannau diogelwch eraill. Mae effaith y dirwasgiad i'w weld yn glir yn y gostyngiad yn y galw am angorfeydd, ac mae cwsmeriaid bellach yn manteisio ar ein system arwerthu ar-lein i ddyrannu llefydd gwag mewn safleoedd angori. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y rhan fwyaf o angorfeydd eu gosod am bris rhatach na'r pris a gyhoeddir ar hyn o bryd.

Rydym yn parhau i werthfawrogi'r amser, yr egni a'r cyngor ymarferol ar bob agwedd ar bolisi a gweithrediadau trwyddedu ac angori sy'n cael eu rhoi i'n tîm rheoli cychod gan sefydliadau cychod cenedlaethol.

	2011/12	2010/11
Trwyddedau cychod hirdymor a roddwyd*	34,683	34,874
Trwyddedau wedi'u hadnewyddu ar-lein	7,770	7,254
Nifer sy'n osgoi talu'r drwydded	3.4%	4.9%

* Mae dadansoddiad o'r mathau gwahanol o drwyddedau cychod ar dudalen 33.

Canwio

Llonyddwch ein dyfrffyrdd sy'n denu canwyr yn aml, ond mae Canolfan Ryngwladol Dŵr Gwyn Tees Barrage yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn cynnig dewis amgen mwy egniol. Mae wedi ail-agor i'r cyhoedd yn dilyn rhaglen helaeth o welliannau o safon Olympaidd, gan ennill clod am ei pheirianeg dechnegol ragorol yng Ngwobrau arobryn Robert Stephenson Sefydliad Peirianwyr Sifil Gogledd-ddwyrain Lloegr.

Pysgota

Pysgota yw un o weithgareddau hamdden mwyaf poblogaidd Prydain o hyd, ac mae'r rhwydwaith yn cynnig adnodd arbennig i bysgotwyr o bob gallu. Mae Grŵp Cyngori Pysgotwyr Prydain yn parhau i roi adborth gwerthfawr ar ein gwaith, ac yn sgil hynny mae'r berthynas â'r Ymddiriedolaeth Bysgota wedi gwella. Cynhaliwyd Pencampwriaethau Cenedlaethol Uwch Adran yr Ymddiriedolaeth Bysgota ar Gamlas New Junction ym mis Awst 2011, ac mae Camlas Stainforth a Keadby wedi'i dewis ar gyfer digwyddiad yr ail adran yn 2012. Erbyn hyn, rydym yn cynnal Pencampwriaethau Dŵr Llonydd Dyfrffyrdd Prydain mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Bysgota.

Mae'n dda nodi nad oedd unrhyw achosion mawr o bysgod yn marw mewn unrhyw bysgodfa mewn cronfa ddŵr, er gwaethaf yr amodau sych yn 2011.

Nwyddau

Cafodd tua 1.3 miliwn o dunelli o nwyddau eu cludo ar gamlesi ac afonydd Cymru a Lloegr, sy'n llai na'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r dirywiad economaidd wedi cael effaith negyddol ar y diwydiant adeiladu, gan arwain at ostyngiad yn y galw am dywod a graean, sy'n un o brif lwythi'r dyfrffyrdd. Er hynny, mae nifer o drefniadau cludo llwythi newydd wrthi'n cael eu datblygu, yn enwedig yn ardaloedd Gorllewin Swydd Efrog a Llundain.

Gwaith adfer

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn bwrw ymlaen â phrosiectau adfer camlesi sy'n dod â bywyd newydd i gymunedau lleol, gan gynnwys:

Bow Back Rivers

Bydd llygaid y byd ar y Bow Back Rivers, sy'n amgylchynu'r Parc Olympaidd, yn 2012. Fel rhan o'r gwaith paratoi, gwariwyd £2.1 miliwn ar garthu, £770,000 ar wella'r dyfrffyrdd gan gynnwys creu cynefin glannau meddal, ffenders pontydd a theithwyr angori, a gwariwyd dros £1 miliwn ar ledw a rhoi wyneb newydd ar y llwybrau tynnu sy'n arwain at y Parc Olympaidd. Mae gennym bartneriaeth gefnogol a chynhyrchiol iawn ag Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd a Transport for London, sef prif arianwyr y gwelliannau hyn. Buom hefyd yn gweithio gyda'r London Legacy Development Corporation i lunio glasbrint ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cychod a chanwio.

Bydd bws dŵr newydd, Water Chariots, yn barod ar gyfer y Gemau Olympaidd ac yn cynnig gwasanaeth teithiau cychod a thacsi dŵr newydd. Rydym hefyd wedi cydweithio â Phwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd ar gynigion ar gyfer y gemau eu hunain. Bydd pontŵn newydd gwerth £200,000 ar gyfer cychod mawr yn cael ei adeiladu y tu allan i'r Ganolfan Ddŵr ar Afon Waterworks er mwyn arddangos ein cychod treftadaeth.

Camlesi Droitwich

Agorwyd Camlesi Droitwich yn ffurfiol gan Weinidog yr Amgylchedd, Caroline Spelman AS, ar 1 Gorffennaf 2011. Ffurfiwyd Partneriaeth Camlesi Droitwich yn 2001 gan Ddyfrffyrdd Prydain, Cyngor Dosbarth Wychavon, Cyngor Swydd Gaerwrangon, Ymddiriedolaeth y Dyfrffyrdd ac Ymddiriedolaeth Camlesi Droitwich. Roedd agor y camlesi yn benllanw tair blynedd o waith yn ymwneud ag adeiladu, bywyd gwyllt, treftadaeth ac ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned. Ers agor, bu 1,600 o symudiadau cychod, ac mae'r Ganolfan Groeso leol wedi cofnodi cynnydd o 50% yn nifer yr ymwelwyr. Dechreuwyd adeiladu marina 238 angorfa gwerth tua £3 miliwn ger Clwb Rygbi Droitwich ddechrau gwanwyn 2011. Ym mis Mai 2012, enillodd y prosiect y Wobr Cyflawniad Eithriadol yng Ngwobrau Renaissance, a chyn hynny enillodd Wobr Adeiladu Peirianwyr Sifil Gorllewin Canolbarth Lloegr a'r wobwr fel prif enillydd.

Camlas Manceinion, Bolton a Bury

Mae'r dyhead i adfer y gamlas yn symud ymlaen gyda chymorth Cyngor Salford sydd wedi sicrhau £100,000 o adnoddau tuag at ddarn 2km o'r llwybr tynnu nad oedd modd teithio ar ei hyd cyn hynny. Roedd y gwaith yn cynnwys cael gwared ar lystyfiant, trin Clymog Japan a chreu wyneb ar gyfer y llwybr tynnu, gan gysylltu ag ardal Lower Irwell Valley. Yn ogystal â Chyngor Salford, rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Camlas Manceinion, Bolton a Bury hefyd.

Camlas Maldwyn

Gan weithio trwy Bartneriaeth Camlas Maldwyn ac o fewn fframwaith Strategaeth Rheoli Cadwraeth y gamlas, mae rheolwr y datblygiad a ariennir gan y bartneriaeth wedi bod yn paratoi ceisiadau ariannol mawr i gwblhau'r gwarchodfeydd natur yn Lloegr sy'n ategu'r gwaith adfer presennol gan wirfoddolwyr, sef dros 1,100 o ddiwrnodau ar waith ffisegol yn unig.

Datblygu Eiddo mewn Mentrau ar y Cyd Brentford, Llundain

Yn ystod y flwyddyn, cafodd ein cyd-fenter ag ISIS Waterside Regeneration ganiatâd ar gyfer ei gynllun defnydd cymysg mawr yn Commerce Road. Bydd y cynllun yn cynnwys 520 o unedau preswyl, gyda 102 ohonyn nhw'n fforddiadwy, ynghyd â 70,000 troedfedd sgwâr o swyddfeydd, 18,000 troedfedd sgwâr o ofod cymunedol a hamdden, cyfleusterau angori gwell a newydd, pont newydd i gerddwyr / beicwyr a gwelliannau i dir cyhoeddus a llwybrau tynnu.

Basn City Road, Llundain

Mae'r gwaith o greu 100 o unedau fforddiadwy ger y Basn wedi'i gwblhau bellach ar y cyd â'r Family Mosaic Housing Trust, ac mae gwaith wedi dechrau ar 200 o fflatiau preifat eraill. Mae'r datblygiad ger Camlas Regent yn Islington yn fenter ar y cyd rhwng Dyfrffyrdd Prydain, Miller Developments a Groveworld.

Granary Wharf, Leeds

Mae datblygiad Granary Wharf, a gwblhawyd yn ddiweddar gan ISIS Waterside Regeneration, yn parhau i dderbyn clod eang gan y diwydiant adfywio, ac mae wedi ennill nifer o wobrau yn ddiweddar, gan gynnwys gwobr genedlaethol RICS am waith adfywio, a phrosiect y flwyddyn RIBA. Mae'r gwobrau hyn yn adlewyrchu ansawdd uchel y cynllun a'i gyfraniad at lan y dŵr yn Leeds.

Icknield Port Loop, Birmingham

Mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Birmingham a'r Asiantaeth Tai a Chymunedau, rydym wedi cyflwyno cais cynllunio amlinellol i ddatblygu 50 erw o dir yn Icknield Port Loop ger canol Birmingham. Bydd y cynigion yn gweddnewid yr ardal allweddol hon ar lan y dŵr, gan gynnwys datblygu 1,000 o dai ac uwchraddio'r cyfleusterau ar y ddyfrffordd fel rhan o un o gynlluniau pwysicaf ail ddinas Lloegr.

Loughborough

Ar ôl cael caniatâd cynllunio'r llynedd, mae ein cyd-fenter H2O bron â chwblhau adeiladu gwesty Travelodge 87 gwely newydd a gofod manwerthu ar y llawr gwaelod. Bydd y gwesty yn agor yn haf 2012 ac yn benllanw gwaith adfywio ar safle a fu'n segur ar un adeg ym mhen uchaf y Loughborough Navigation. Bydd yn ategu'r gwaith blaenorol, sef codi llety i fyfyrwyr, bwyty ac ehangu basn y gamlas i ddarparu cyfleusterau gwell ar gyfer cychod sy'n ymweld â Loughborough.

Marsworth

Ar y cyd â'n cyd-fenter H2O, rydym wedi sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun i godi 12 o dai newydd i deuluoedd, adfywio ac addasu gweithdy, adnewyddu craen ac uwchraddio cyfleusterau cychod ar y safle pwysig hwn wrth gyffordd Camlas y Grand Union a'r Aylesbury Arm.

Northwich

Cyflwynwyd cais am ganiatâd cynllunio ar y cyd â H2O i adfywio safle mawr ar lan y dŵr yng nghanol Northwich. Mae'r cynnig yn cynnwys codi archfarchnad newydd, 58 uned o lety gofal ychwanegol i'r henoed a gofod manwerthu. Mae hefyd yn cynnwys gwelliannau mawr i lan y dŵr fel gwella mynediad i'r cyhoedd ac angorfeydd newydd. Os yw'r cais cynllunio yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd gwaith ar y safle yn dechrau yn hydref 2012.

Padworth

Rydym wedi sicrhau caniatâd cynllunio, ar y cyd â H2O, i godi 11 o dai newydd ar gyfer teuluoedd ac uwchraddio ac adnewyddu'r ganolfan ymwelwyr boblogaidd a reolir gan Ymddiriedolaeth Camlas Kennet ac Avon ar y safle hardd hwn ar y gamlas rhwng Reading a Newbury.

Glan y dŵr yn Wakefield

Yn dilyn agor oriel Hepworth y llynedd, sydd eisoes wedi denu mwy o ymwelwyr na'r disgwyl, mae cam nesaf y cynllun mawr i adfywio glan y dŵr ar waith, sef adeiladu tafarn fwyta sy'n apelio at deuluoedd ar safle ym mhen uchaf y Calder a Hebble Navigation. Bydd ar agor i'r cyhoedd cyn y Nadolig, gan greu atyniad ychwanegol ar gyfer trigolion, gweithwyr swyddfa ac ymwelwyr â'r oriel yn ardal newydd Wakefield ar lan y dŵr.

ADOLYGIAD CYMRU

Bu'n flwyddyn o newid a dathlu yng Nghymru eleni, rhwng rhaglen ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru; rhoi stamp Cymreig - Glandŵr Cymru - ar y Canal & River Trust yng Nghymru; a lansio digwyddiadau i ddathlu deucanmlwyddiant Camlas Mynwy ac Aberhonddu ym mis Chwefror 2012.

Buddsodwyd yr un faint o arian yng nghamlesi Cymru â'r llynedd, er gwaetha'r dirwasgiad, gyda'n partneriaid yn cyfrannu £1.4 miliwn arall. Mae'n amlwg bod manteision dyfrffyrdd i Gymru, yn enwedig fel un o'r adnoddau hamdden a thwristiaeth mwyaf hygyrch y wlad, yn cael eu cydnabod. Yn ystod yr haf, agorodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ran o welliannau i lwybr tynnu Camlas Llangollen yn Sir Ddinbych. Gwnaed gwelliannau i ddeng milltir o lwybrau tynnu ar hyd ein pedair camlas eleni.

Diolch i gronfa Cydnerthedd, Amrywiaeth a Chydymffurfiaeth Ecosystemau Llywodraeth Cymru, cyfrannwyd £60,000 tuag at y gwaith pwysig o warchod cynefinoedd planhigion dyfrol prin ar Gamlas Maldwyn a defnyddio technoleg ffôn deallus i ddenu sylw plant ac ymwelwyr eraill at hyn.

Bydd digwyddiadau i ddathlu deucanmlwyddiant Camlas Mynwy ac Aberhonddu a gwaith dehongli o amgylch Rhaeadr Llandysilio, ac ehangu'r ganolfan ymwelwyr yn Nhrefor yn hybu dealltwriaeth pobl o gyfraniad ein camlesi at sicrhau lle Cymru fel gwlad ddiwydiannol gynta'r byd.

Yn y gaeaf, cynhaliwyd diwrnod agored yn Llangynidr i ddangos pa mor bwysig yw ein gwaith cynnal a chadw dyddiol, gan ddefnyddio technegau a sgiliau priodol – nid yn unig o ran cynnal treftadaeth ddiwylliannol y genedl ond hefyd wrth gyflogi pobl, cyflenwyr a chontractwyr lleol. Yn ogystal â'r gwaith bob dydd, gwnaed gwerth £1.27 miliwn o waith sylweddol ar ddyfrffyrdd Cymru.

Deucanmlwyddiant Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Cafwyd dechrau gwlyb ond llwyddiannus i achlysur dathlu deucanmlwyddiant cwblhau'r gamlas, gyda seremoni ym Mhont-y-moel yng nghwmni cant o bobl. Cychwynnodd y cyfan gyda rhes o glychau'n atseinio ar hyd y gamlas gyfan, i'r ddau gyfeiriad i Aberhonddu a Chasnewydd. Fis yn ddiweddarach, cafodd achlysur cludo cwrw arbennig o Aberhonddu a chaws o Flaenafon ei gofnodi gan raglen deledu Countryfile y BBC ac Open Country, Radio 4. Bydd llu o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal gydol y flwyddyn, gan ddod â chymunedau ynghyd a chyflwyno atyniadau a busnesau'r gamlas i gynulleidfa newydd.

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

Cydnabuwyd rôl Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte fel porth i'r Gogledd-ddwyrain yn gynharach eleni, ac ategwyd hynny pan gafodd Ardal o Harddwch Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ei hymestyn i gwmpasu'r holl Safle bron. Er mwyn sicrhau bod Safle Treftadaeth y Byd yn cyflawni'i botensial, comisiynodd Cynllun Gweithredu Diwylliannol y Gogledd-ddwyrain adroddiadau: i wneud argymhellion ar gyfer cysylltu tref Llangollen â'r Safle Treftadaeth y Byd; ystyried ymarferoldeb a lleoliad Canolfan y Porth er mwyn annog pobl i aros am gyfnod hirach ac archwilio'r ardal ymhellach; pa mor ymarferol yw ailagor Camlas Plas Kynaston a oedd yn cysylltu Cefn Mawr a basn Trefor ar un adeg; a llywio datblygiadau'r dyfodol ar safle tir llwyd cyfagos. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad olaf yn 2012.

Ymgysylltu yng Nghymru

Parhaodd ein cysylltiadau â'r byd sifil yng Nghymru, yn enwedig trwy'n cyfraniad i'r Grwpiau Cynghori Gweinidogion. Er inni ffarwelio â sawl cyfaill a chefnogwr da i'r dyfrffyrdd wedi etholiad mis Mai 2011, mae'n amlwg yn barod ein bod ni wedi denu llu o gefnogwyr newydd hefyd. Roeddem wrth ein bodd pan ail-ffurfiwyd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd yn ystod sesiwn newydd y Cynulliad Cenedlaethol, gyda Nick Ramsay AC yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd ar ôl i Val Lloyd roi'r gorau iddi adeg yr etholiad. Roeddem yn falch dros ben o groesawu'r Prif Weinidog Carwyn Jones AC i'n stondin yn Sioe Frenhinol Cymru er mwyn lansio'r digwyddiad cyntaf o dri a gynhaliwyd gennym y

llynedd. Y siaradwyr eraill yn y digwyddiadau oedd John Griffiths AC, y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, a Russell George AC.

Glandŵr Cymru

Cafodd ein henw newydd yng Nghymru groeso brwd yn ogystal â chreu'r Bartneriaeth Cymru Gyfan. Cafodd cadeirydd cyntaf y Bartneriaeth, Dr Mark Lang, ei benodi mewn pryd ar gyfer cyfarfod cynta'r Cyngor ddiwedd mis Mawrth. Bydd Mark yn cydweithio'n agos â Jim Forrester a Jack Hegarty, y naill yn Gadeirydd Partneriaeth Dyfrffyrdd De Cymru a'r Hafren a'r llall yn Gadeirydd Partneriaeth Gogledd Cymru a'r Gororau. Bydd cyngor y Bartneriaeth newydd yn disodli'r hyn a gafwyd hyd yma gan Grŵp Cyngori Cymru Dyfrffyrdd Prydain sy'n dod i ben gyda'r newid. Edrychwn ymlaen at y cyfle i'r ymddiriedolaeth gydweithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid eraill yng Nghymru.

ADOLYGIAD YR ALBAN

Blwyddyn o Drawsnewid

Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am noddi ac ariannu gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban ers datganoli.

Yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i drosglwyddo gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yng Nghymru a Lloegr i elusen ddyfrffyrdd newydd, cadarnhaodd gweinidogion Llywodraeth yr Alban ym mis Tachwedd 2010 nad oeddynt yn bwriadu cyflwyno newidiadau tebyg i Ddyfrffyrdd Prydain yr Alban.

Parhaodd y broses gymhleth o ddadgyfuno gydol y flwyddyn, gyda Dyfrffyrdd Prydain, Dyfrffyrdd Prydain yr Alban a'r ddwy lywodraeth yn cytuno i wahanu asedau a'r ddarpariaeth bensiwn, gyda Dyfrffyrdd Prydain yr Alban yn mynd ati i newid prosesau a gwasanaethau yn enwedig rhai wedi'u cyflenwi ar lefel Prydain gyfan fel Technoleg Gwybodaeth.

Rhagwelir y bydd y broses hon wedi'i chwblhau yn yr haf, pan fydd asedau a rhwymedigaethau Dyfrffyrdd Prydain yng Nghymru a Lloegr yn symud i'r elusen, sy'n golygu mai dim ond yn yr Alban y bydd Dyfrffyrdd Prydain ar waith, fel corff annibynnol Albanaidd dan enw yr Scottish Canals. Gweinidogion yr Alban fydd yn penodi holl aelodau'r Bwrdd.

Mwy o Arbedion Effeithlonrwydd

Cafwyd grant o £10.5m gan Lywodraeth yr Alban yn 2011/12 (£11.5 miliwn yn 2010/11). Roedd hwn yn cynnwys Cymorth Grant ychwanegol o £0.5m gan Transport Scotland yn sgil arbedion yn yr Asiantaeth.

Fe wnaethom lwyddo i fodloni targedau Llywodraeth yr Alban o wneud 3% o arbedion ariannol ar gyfer pob corff sector cyhoeddus, gan arbed cyfanswm o £1 filiwn dros y tair blynedd. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno newidiadau i'n contract cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau canolog.

Cyrhaeddwyd ein targedau cyllidebol trwy gyflwyno mesurau amrywiol gan gynnwys lleihau'r lefelau staffio tymhorol, blaenoriaethau gwaith cynnal a chadw ataliol ac uwchsgilio gweithwyr y glannau er mwyn lleihau gwaith contract yn sylweddol.

Uchafbwyntiau'r Flwyddyn

Rydym wedi sicrhau cynnydd da yn ein holl feysydd busnes gan ystyried dibenion twf economaidd cynaliadwy ac amcanion strategol Llywodraeth yr Alban ar gyfer gwlad gyfoethocach a thecach, iachach, diogelwch a chryfach, doethach a gwyrddach.

Prosiectau Partneriaeth Cyfoethocach a Thecach; Diogelach a Chryfach

Fe wnaethom gynnydd sylweddol o ran ein prosiectau creu lleoedd a chyrchfannau twristiaeth pwysig gyda'n partneriaid ledled yr Alban.

Prosiect Adfer Camlas Glasgow

Gwnaethom gynnydd da o ran gwaith adfer camlas Forth & Clyde yng ngogledd Glasgow law yn llaw â'n partneriaid, Cyngor Dinas Glasgow a'r gyd-fenter ISIS. Mae ardal greadigol newydd Speirs Wharf yn parhau i ffynnu, gyda'r hen ffatri lud ar ei newydd wedd yn denu arddangosfeydd newydd cyffrous. Cafodd heb adeilad Whiskey Bond ei ailwampio ar gyfer Glasgow Sculpture Studios a agorodd ym mis Ebrill, gydag arddangosfa flaenllaw ar gyfer Gŵyl Ryngwladol Glasgow.

Rhodddwyd rhagor o sylw i'r posibilrwydd o ailagor ac adfywio Port Dundas, terfynfa wreiddiol cangen Glasgow o'r gamlas. Cafodd cynigion Pinkston Paddlesports i agor canolfan chwaraeon dŵr £2.2 miliwn gyferbyn â hen waith Diageo, ganiatâd cynllunio a sefydlwyd cwmni elusennol i helpu i godi arian ar gyfer y cyfleusterau cymunedol a hyfforddiant elít hyn.

Cynhaliwyd seremoni arbennig rhwng Speirs Wharf a Port Dundas i nodi dengmlwyddiant ailagor y gamlas, gyda fflyd o 80 o gychod ym mis Medi.

Parhaodd ail gam y gwaith adeiladu yn Maryhill, datblygiad £17 miliwn i godi 125 o dai newydd, a lansiwyd gwefan newydd www.glasgowcanal.co.uk

Camlas yr Union

Yn dilyn proses ymgynghori lwyddiannus, lansiwyd Cyngor Dinas Caeredin strategaeth camlas Caeredin. Gan adeiladu ar lwyddiant cwblhau Edinburgh Quay, mae'r strategaeth gyflawni hon yn nodi'r cyfleoedd mewn saith man rhwng Caeredin a Ratho. Mae prosiectau cychwynnol posibl yn cynnwys 'canolfan ragoriaeth' gwerth £2.5 miliwn ar gyfer chwaraeon dŵr yn Meggetland a marina newydd yn Ratho, rhan o ddatblygiad preifat gan CALA Homes.

Coridor camlas Falkirk - Grangemouth

Gyda'n partner Cyngor Falkirk, aethom ati i ddatblygu 'Portdownie', datblygiad cymysg ar safle 58 erw sy'n ymestyn o Olwyn Falkirk ac sy'n cynnwys gwesty, marina newydd, tai preswyl, cyfleusterau hamdden/siopa ac ardal fasnachol o gwmpas yr Union Inn (rhestredig gradd B). Bydd mynedfa newydd i Olwyn Falkirk trwy barcdir Portdownie hefyd.

Datblygwyd cynlluniau hefyd i weddnewid hen Ddistyllfa Rosebank sydd mewn safle amlwg ar gyrion canol tref Falkirk, a dechreuom ddatblygu strategaeth ar gyfer cam nesaf datblygiad Olwyn Falkirk sy'n ddeg oed eleni.

Law yn llaw â'r Waterways Trust Scotland, lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun Cam 2 ar gyfer ardal chwarae dŵr ryngweithiol Olwyn Falkirk a agorodd fis Mehefin diwethaf. Gallai hyn gynnwys llyn cychod newydd, pwll padlo a llawr sglefrio iâ yn y gaeaf.

Mae cam cyfalaf prosiect Helix, gwerth £43 miliwn, i weddnewid 300 hectar o dir segur rhwng Grangemouth a Falkirk yn dirwedd bywiog newydd, yn mynd rhagddo. Bydd y cyfleuster cymunedol ac atyniad twristaidd newydd hwn, a fydd yn agor yn haf 2013, yn cynnwys mynedfa ddwyreiniol well i gamlesi'r iseldir ac estyniad i gamlas y Forth & Clyde, lle bydd dau gerflun 30 metr o gŵn 'Kelpie' neu geffylau dŵr yn sefyll.

Penodwyd contractwr ar gyfer y loc môr ac estyniad y gamlas, a bwriedir dechrau'r gwaith yn yr hydref. Ar y cyd â'r Royal Incorporation of Architects in Scotland a'n partneriaid ar brosiect Helix, cynhaliwyd cystadleuaeth ddylunio ryngwladol ar gyfer y ganolfan ymwelwyr a phrofiad mewnol i ymwelwyr y tu mewn i un o'r pennau Kelpie. Dyfarnwyd y contract i gwmni Nicoll Russell Studios o Dundee.

Bowling i Clydebank

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer datblygu cyfleusterau hamdden a phreswyl a mynediad gwell yn Bowling.

Cafodd glan ogleddol camlas y Forth & Clyde yn nhref Clydebank ei gweddnewid yn atyniad ymwelwyr, diolch i waith ailwampio gwerth £1.8 miliwn gan sefydliadau lleol, sy'n profi beth sy'n bosibl pan fo'r gymuned yn meithrin diddordeb yn y gamlas.

Camlas Monkland

Cymerwyd camau breision gyda phartneriaid lleol a grwpiau cymuned i greu llecyn gwyrdd cymunedol o'r radd flaenaf mewn darn hen gamlas segur na ellir hwylio arni. Cwblhawyd sawl prosiect dehongli a mynediad creadigol gan gynnwys gwaith celf cyhoeddus sylweddol yn Coatbridge, wedi'i greu gan yr artist Albanaidd, Andy Scott, a'i agor gan yr arwr lleol Mark Millar, awdur llyfrau comics o fri rhyngwladol. Sicrhawyd arian ar gyfer cam ola'r prosiect adfywio a fydd yn cychwyn eleni.

Camlas y Caledonian

Trwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom helpu i sbarduno'r economi dwristiaeth trwy farchnata mewn partneriaeth yn enwedig menter Great Glen Ways (Slighe a'Ghlinne Mhòir) sy'n annog pobl i deithio drwy'r ardal honno gyda chwch, ar feic neu ar droed.

Law yn llaw â'n partneriaid, aethom ati i lansio'r llwybr canw ffurfiol cyntaf yn yr Alban - The Great Glen Canoe Trail. Mae'r llwybr trigain milltir hwn ymestyn ar hyd camlas y Caledonian, a disgwylir iddo fod yn un o'r cyrchfannau mwyaf poblogaidd i ganw-wyr yn y DU gan ddenu miloedd mwy o ymwelwyr i'r Ucheldiroedd.

Ar y cyd â'n partneriaid, The Vivat Trust, cyhoeddwyd cynlluniau gennym i adfer goleudy Bona (rhestredig gradd B) ar Loch Ness, un o'r goleudai lleiaf â chriw yn y DU yn ôl pob tebyg. Rydym yn gobeithio mai dyma'r cyntaf mewn cyfres o adeiladau hanesyddol ar hyd camlas y Caledonian a gaiff eu cynnal fel llety gwyliau gan y bartneriaeth.

Hwylio

Cafodd camlesi fel y Caledonian a'r Crinan eu dynodi'n 'ddyfrffyrdd masnachol' gan Ddeddf Trafnidiaeth 1968 a'r gweddill, gan gynnwys camlesi'r iseldiroedd, eu dynodi'n ddyfrffyrdd anrhestredig (neu 'ddyfrffyrdd gweddilliol')

Roeddem wrth ein bodd, felly, pan aeth Llywodraeth yr Alban ati i ailddosbarthu camlesi'r Ford & Clyde a'r Union yn ddyfrffyrdd 'hwylio' yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth yr Alban i gamlesi'r Alban ac yn darparu'r fframwaith statudol lle gallwn gynnal a hyrwyddo'r ddwy ddyfrffordd fel llefydd addas i'w defnyddio'n fwy helaeth gan gychod hamdden.

Buddsoddwyd mewn blociau cyfleusterau newydd yn Leamington Wharf, Caeredin a Cinan.

Parhawyd i farchnata camlesi'r Alban i farchnadoedd hwylio'r DU a thramor, ac roeddem yn falch o gael ein dewis gan Gymdeithas Hwylio Morol Denmarc ar gyfer eu mordaith i lynes o gychod bach ym mis Gorffennaf.

Ym mis Chwefror, lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein strategaeth Waterspace drafft er mwyn sbarduno rhagor o weithgarwch ar gamlesi'r Alban. Mae'r ymgynghoriad cychwynnol hwn yn nodi dechrau ymrwymiad parhaol i ysgogi ardaloedd ffyniannus. Mae'n canolbwyntio ar y marchnadoedd cychod preswyl a masnachol ac yn cynnig sefydlu tri chynllun peilot, yn ninasoedd Glasgow, Caeredin a Dundee, gan gychwyn yr haf hwn.

Gwirfoddoli

Mae Dyfrffyrdd Prydain yr Alban yn ymroi i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n cyfrannu at, ac yn mwynhau camlesi'r Alban. Cafwyd sawl datblygiad yn ystod y flwyddyn.

Sefydlwyd rhaglen wirfoddoli blwyddyn gyfan gan y Lowland Canals Volunteer Group.

Parhaodd Waterways Trust Scotland (TWTS) i annog y sector cymunedol a gwirfoddol i ymgysylltu â Scottish Canals gan godi £1.5 miliwn sy'n well na'r targed ar gyfer eleni a denu 8,000 o bobl i gymryd rhan trwy fentrau fel The Falkirk Wheel Water Play Area, cam 2 Scents & Sensitivities yn Auchinstarry, The Green Action Project (Falkirk), The Blue Motion Project, Canal Adoptions yng Nghaeredin, gwelliannau i gamlas Monkland (gan gynnwys Blair Bridge Gateway), gŵyl Summerlee Heritage Museum a chodi arian ar gyfer canolfan Pinkston Paddlesports, Port Dundas.

Llwyddodd TWTS i ddenu 300 a mwy o wirfoddolwyr unigol gan gyflawni 1,849 o ddiwrnodau gwirfoddoli, gwerth £111,750.

Hefyd, aethom ati i sefydlu menter genedlaethol gyda chynllun cyfiawnder adferol, Community Payback. Mae wedi profi'n hynod effeithiol yn barod, o ran helpu i gyflwyno gwelliannau i gamlesi.

Gwyrddach

Mae gwaith ymchwil i gamlas y Forth & Clyde yn awgrymu y gallai fod yn gamlas fordwyol i gychwyr ac yn ddewis amgen cynaliadwy a chosteffeithiol ar gyfer lleihau peryglon llifogydd a draenio trefol.

Eleni, roeddem yn falch o dderbyn gwahoddiad i ymuno â'r Metropolitan Glasgow Strategic Drainage Partnership a fydd yn ein galluogi i ddatblygu rhagor o gynlluniau posibl yn y maes.

Parhawyd hefyd i ystyried ein cyd-ddyheadau gyda Chyngor West Dunbartonshire ar gyfer camlas newydd Lomond a fyddai'n lliniaru peryglon llifogydd a sbarduno gwaith adfer sylweddol ledled y coridor.

Swyddogaeth Ehangach yn yr Alban – Hydro Nation

Ym mis Rhagfyr 2010, lansiodd Llywodraeth yr Alban 'Building a Hydro Nation', ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â sut y gallai seilwaith dŵr yr Alban, gan gynnwys camlesi, greu rhagor o fanteision i'r cyhoedd. Ym mis Chwefror eleni, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad diylchol 'Scotland the Hydro Nation Prospectus and Proposals for Legislation Consultation', a oedd yn gofyn am ymatebion i gynigion Llywodraeth yr Alban ar gyfer Bil Adnoddau Dŵr.

Ymatebodd Dyfrffyrdd Prydain yr Alban yn gadarnhaol i'r ddau ymgynghoriad gyda brwdfrydedd o blaid y syniad o bolisi Hydro Nation a mwy o gydweithrediad rhwng y sefydliadau rheoli dŵr a fydd yn hollbwysig i gyflwyno'r polisi hwn.

Iachach

Fe wnaethom barhau i hyrwyddo ffyrdd egniol o fyw, gan arbed hyd at £8 miliwn i'r gwasanaethau iechyd ar gamlesi'r iseldiroedd yn ôl gwaith ymchwil diweddar, trwy ddarparu a hyrwyddo llefydd gwyrdd a glas o'r radd flaenaf ar gyfer adloniant, hamdden a chymudo. Cyflwynwyd nifer o welliannau i'r llwybrau tynnu, yn enwedig ar gamlas yr Union lle cafodd goleuadau LED eu gosod mewn prosiect arloesol i'w gwneud hi'n haws i bobl weld wrth ddefnyddio'r llwybr fin nos.

Fe wnaethom barhau i gefnogi partneriaid eraill sy'n denu pobl i fwynhau'r camlesi, trwy gyfrwng digwyddiadau fel y Crinan Water Festival a digwyddiad Forth & Clyde 10 dan law'r Lowland Canals Volunteer Group – digwyddiad gyda llynges o gychod bach i ddathlu dengmlwyddiant ailagor y gamlas a ddenodd tua 10,000 o bobl.

Cafodd Olwyn Falkirk hefyd ei dewis fel lleoliad ar gyfer taith y fflam Olympaidd.

Doethach

Parhawyd i weithio gyda sawl sefydliad academaidd blaenllaw, er mwyn creu technoleg newydd i gynnal a monitro'r seilwaith camlesi.

Fe wnaethom barhau i gefnogi mentrau addysgol wedi'u cydlynu gan gymdeithasau camlesi, mentrau cymdeithasol a TWTS gan gynnwys teithiau cychod Wildlife Safari / Heritage Hunt ar gyfer 400 a mwy o blant ysgol bob blwyddyn. Yn ogystal â'r ardal chwarae dŵr a'r ystafell awyr agored newydd yn Olwyn Falkirk, lansiwyd rhaglen addysg sy'n gysylltiedig â'r Curriculum for Excellence sy'n gysylltiedig â'r John Muir Trust Discovery Award ar gamlas y Caledonian.

Hefyd, parhaodd ein rhaglen uwchsgilio ar gyfer gweithwyr y glannau ledled yr Alban gan greu canolfan gwaith maen ar gamlas yr Union.

Rhwydwaith Cefnogol

Yn ogystal â'n partneriaid niferus o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn yr Alban, rydym yn ddyledus i aelodau gwirfoddol Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yr Alban. Maent yn arbenigwyr ym meysydd masnach, gwirfoddoli a'r amgylchedd, ac wedi gwneud cyfraniad hynod werthfawr mewn blwyddyn o newidiadau.

Hoffem ddiolch o galon hefyd i'r diweddar Dr Campbell Christie a fu farw ym mis Hydref. Bu Dr Christine yn aelod o Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain am bron i ddeng mlynedd, a gwnaeth gyfraniad hollbwysig i ddatblygiad camlesi'r Alban, yn enwedig goruchwyllo'r broses o gyflwyno'r Millennium Link Project gwerth £83.5 miliwn ac fel Cadeirydd cyntaf Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yr Alban.

Scottish Canals – Y Dyfodol

Bydd eleni'n flwyddyn o newid digyffelyb i gamlesi'r Alban wrth i Ddyfrffyrdd Prydain ddod yn gorff cyhoeddus annibynnol Albanaidd gyda Bwrdd wedi'i benodi'n gyfan gwbl gan Weinidogion yr Alban a'i bolisi corfforaethol yn seiliedig ar y cyd-destun Albanaidd yn llwyr. Er y bydd yn parhau dan enw Dyfrffyrdd Prydain yn gyfreithiol, bydd yn gweithredu ac yn masnachu fel Scottish Canals.

Ymgwymerodd Llywodraeth yr Alban â phroses benodi er mwyn cael aelodau ychwanegol i'r Bwrdd, ac yn gynharach eleni, cyhoeddodd gyfansoddiad Bwrdd Scottish Canals ar gyfer y dyfodol.

Bydd y ddau sydd wedi'u penodi gan Weinidogion yr Alban ar hyn o bryd yn parhau yn eu swydd ar ôl y diwrnod trosglwyddo.

Dr Jon Hargreaves, un o ddau aelod presennol Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain a benodwyd gan Lywodraeth yr Alban ac sydd â 35 mlynedd o brofiad yn y diwydiant dŵr, fydd Cadeirydd Bwrdd Scottish Canals.

Bydd *Duncan Sutherland*, yr ail aelod a benodwyd gan Lywodraeth yr Alban, yn parhau gyda'r Bwrdd tan ddaw ei dymor presennol i ben ym mis Medi. Bydd wedyn yn cael ei benodi am dymor pellach o dair blynedd. Daw Duncan â'i brofiad a'i arbenigedd mewn datblygu eiddo ac adfywio i'r bwrdd newydd.

Steve Dunlop, Cyfarwyddwr Dyfrffyrdd Prydain yr Alban ar hyn o bryd, fydd Prif Weithredwr Scottish Canals, a bydd yn cael ei benodi'n aelod o'r bwrdd.

Tanya Castell, Martin Latimer a Geoff Aitkenhead fydd aelodau eraill y Bwrdd o chwech.

Mae *Tanya Castell* yn arbenigwr risg a rheoleiddio â thros 25 mlynedd o brofiad mewn gwasanaethau ariannol. Mae'n arbenigo mewn materion pensiynau hefyd.

Mae *Geoff Aitkenhead*, Peiriannydd Siartredig, yn Gyfarwyddwr Rheoli Asedau Scottish Water ers deng mlynedd, ac mae ei gryfderau'n cynnwys rheoli risg, caffael ac iechyd a diogelwch.

Mae *Martin Latimer* wedi gweithio ar y lefel uchaf gyda diwydiant hamdden morwrol yr Alban ers dros 25 mlynedd, ac mae ganddo gyfoeth o brofiad ym myd masnach, marchnata a chysylltiadau cwsmeriaid.

Bydd Bwrdd Scottish Canals yn fwrdd hygyrch ac agored, ac yn cyfarfod bob mis mewn lleoliadau ger camlesi ar hyd a lled yr Alban.

Bydd y Waterways Trust Scotland yn gwahanu oddi wrth y Waterways Trust yng Nghymru a Lloegr, ac yn elusen hollol Albanaidd gyda chysylltiadau agosach â Scottish Canals.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau parhad busnes trwy bontio, sbarduno effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd a chynyddu ein hincwm.

Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, bydd Bwrdd Scottish Canals yn datblygu gweledigaeth a strategaeth gyflawni newydd hefyd ar gyfer ein cyfnod nesaf o dyfu a datblygu. Bydd hwn wedi'i seilio'n llwyr ar y sefyllfa yn yr Alban a byddwn yn dilyn strategaeth economaidd a fframwaith perfformiad cenedlaethol Llywodraeth yr Alban, fel pob corff cyhoeddus arall yn y wlad.

Er ein bod ni, fel pob sefydliad arall yn y sector cyhoeddus, yn parhau i wynebu cyfnod economaidd anodd iawn, mae'r flwyddyn i ddod yn ddechrau pennod newydd a chyffrous ar gyfer camlesi'r Alban.

Y DYFODOL

Dyfodol Disglair

Wrth i'r adroddiad hwn fynd i'r wasg, rydym yn sicr y bydd y broses o drosglwyddo o Ddyfrfyrdd Prydain i'r Canal & River Trust yn Lloegr a Glandŵr Cymru, ac i sefydliad annibynnol Scottish Canals yn yr Alban, wedi'i chwblhau yn 2012. Mae bron i hanner canrif o hanes cyffredin yn dod i ben. Er hynny, rydym yn llawn gobaith wrth edrych ymlaen at ddyfodol camlesi ac afonydd sydd mor annwyl i ni, wrth i'r gymdeithas sifil newydd a modelau gweithgarwch yr Alban addasu i anghenion newydd yr unfed ganrif ar hugain.

2011/12 lays the foundations

2011/12 yn gosod y sylfeini

Gan weithio gyda'r Llywodraeth, rhanddeiliaid, Ymddiriedolaeth Dyfrfyrdd a chynghorwyr proffesiynol, rydym wedi creu sylfaen gadarn eleni gan gynnwys:

- Dau ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol gan Defra
- Canlyniad ymarferol a chytbwys i drafodaethau dadgyfuno Dyfrfyrdd Prydain yn yr Alban, ac yng Nghymru a Lloegr
- Penodi deg ymddiriedolwr annibynnol ar gyfer y Canal & River Trust a chyhoeddi chwe darpar aelod o fwrdd Scottish Canals
- Trin a thrafod contract 15 mlynedd 'caled ond teg' rhwng y Llywodraeth a'r Canal & River Trust
- Cwblhau proses drosglwyddo'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus trwy gyfrwng Senedd y DU a thri o bwyllgorau unigol San Steffan a chael cydsyniad Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
- Enwi a brandio'r Canal & River Trust a Glandŵr Cymru
- Cyhoeddiad gan Weinidogion yr Alban y byddai Dyfrfyrdd Prydain yr Alban yn gweithredu dan enw Scottish Canals
- Penodi ac ethol (mewn saith achos) 32 o aelodau'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer y Canal & River Trust a chynnal cyfarfod cynta'r Cyngor
- Penodi 12 Cadeirydd a thros 115 o aelodau i'r deuddeg Partneriaeth Dyfrfyrdd, ynghyd â Chadeirydd a naw aelod i'r bartneriaeth amgueddfeydd ac atyniadau ar gyfer y Canal & River Trust
- Cyhoeddi mai Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru fydd noddwr yr elusen newydd ac y byddai'n adnewyddu ei nawddogaeth o'r Waterways Trust Scotland
- Cofrestru'r Canal & River Trust/Glandŵr Cymru fel elusen.

Y blynyddoedd i ddod

Rydym yn wynebu'r dyfodol gyda hyder. Gyda'n rhanddeiliaid, rydym yn mabwysiadu dulliau newydd o weithio gan ein bod yn credu y byddant yn sicrhau dyfodol hirdymor i ddyfrfyrdd yr Alban, Cymru a Lloegr. Rydym yn hyderus yn hyn o beth gan fod y sefydliadau newydd yn mynd i'r afael â'r tri mater hollbwysig canlynol mewn ffyrdd newydd:

- Cynnwys rhanddeiliaid
- Lleoliaeth
- Ariannu cynaliadwy

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith o gamlesi ac afonydd hwyliadwy rydym yn gofalu amdanynt fel Dyfrfyrdd Prydain yn prysur agosáu at 250 oed. Nid yw hanner can mlynedd o weithredu fel Dyfrfyrdd Prydain mor hen â hynny felly, yn nhermau 'oes camlas'. Ac eto, mae wedi helpu'r rhwydwaith i oroesi a ffynnu mewn cyfnod o newid mawr. Mae traffyrdd garw'r Chwyldro Diwydiannol bellach yn drysor cenedlaethol ac yn hafan i bobl a byd natur. Mae'r dyfrfyrdd yn rhoi pleser i filiynau o ymwelwyr. Yn aml, caiff y dyfeisiadau gorau eu defnyddio mewn modd na ragwelwyd gan y dyfeiswyr erioed.

Rydym yn gobeithio y bydd y newidiadau a gyflwynir gennym nawr yn cyflwyno rhagor o newidiadau i'r camlesi a'r afonydd yr ydym yn eu trysori. Yn wir, rydym yn ffyddiog y bydd y gwaith a wnawn ni heddiw yn para ymhell i'r ganrif nesaf. Wrth i'r rhwydwaith gyrraedd 350 o flynyddoedd o hanes, ein gobaith yw y bydd plant ein plant yn cael munud i feddwl, edrych yn ôl, cnoi cil a chanmol y gwaith wnaethom ni eleni er lles eu hafonydd a'u camlesi nhw.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae'r canlyniadau ariannol ar gyfer eleni wedi elwa ar waredu'r daliad yng nghyd-fenter Wood Wharf ac ail-drafod prydles tir Wood Wharf. Roedd gan Ddyfrffyrdd Prydain 50% o fuddiant mewn cyd-fenter i ddatblygu'r tir yn Wood Wharf sydd ger Canary Wharf yn ardal Docklands Llundain. Mae Dyfrffyrdd Prydain hefyd yn rhydd-ddeiliad ar ran o'r safle lle bwriedir datblygu eiddo. Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi gwerthu ei gyfran o'r gyd-fenter i'r prif bartner arall am £52.4 miliwn a delir mewn arian parod fesul rhandaliad dros bedair blynedd. Ar yr un pryd, mae Dyfrffyrdd Prydain wedi ailstrwythuro'r brydles tir er mwyn cytuno ar brydles o 250 mlynedd i'r datblygwr sy'n caniatáu ar gyfer cynyddu rhenti tir. Mae'r cynnydd ôl-ddilynol mewn gwerth rhydd-ddaliadol o £61 miliwn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r enillion heb eu gwireddu a nodir yn y datganiad incwm. Cafwyd £8.6 miliwn o elw o gymharu â'r gwerth ar bapur yn sgil gwaredu'r buddiant yn y gyd-fenter, ac fe'i nodir dan 'Enillion gwaredu cyd-fenter'.

Mae'r canlyniad gweithredol hefyd wedi elwa ar gynydd mewn incwm o eiddo masnachol, diolch yn rhannol i'r rhent uwch o safle Wood Wharf ond hefyd yn sgil yr incwm rhent a gafwyd o'r caffaeliadau eiddo buddsoddi a wnaed yn ystod y flwyddyn ac effaith blwyddyn lawn yr eiddo buddsoddiad a gaffaelwyd yn ystod rhan olaf 2010/11.

Mae'r gwarged gweithredol o £7.9 miliwn yn deillio'n bennaf o'r lefelau incwm uwch na'r swm a dybiwyd yn y cynulliau gwariant ddechrau'r flwyddyn ariannol. Er y bu rhywfaint o wariant effeithiol ychwanegol ar y dyfrffyrdd (mwy na'r hyn a gynlluniwyd) yn ystod y flwyddyn, mae'r amseroedd arwain sy'n ofynnol ar gyfer prosiectau yn golygu nad oedd modd cyflawni gwariant pellach yn effeithiol ym mlwyddyn ariannol 2011/12. Bydd y gwarged gweithredol yn cael ei gario drosodd a'i ddefnyddio mewn blynyddoedd i ddod.

Cwblhawyd prosesau prynu eiddo buddsoddi gwerth £31.2 miliwn yn ystod y flwyddyn (2011 : £14.4 miliwn) wrth i'r strategaeth o fuddsoddi mewn eiddo buddsoddi mwy o faint, â llai o waith rheoli, gael ei rhoi ar waith. Parhawyd i werthu eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau derbyniadau arian parod o £11.3 miliwn (2011 : £16.3 miliwn). Mae'r balans wedi gostwng yn unol â'r buddsoddiad net hwn mewn eiddo buddsoddi.

Mae'r incwm cymorth grant yn adlewyrchu'r cyfyngiadau parhaus ar gynlluniau gwariant y llywodraeth. Cafwyd £41.5 miliwn o gymorth grant sylfaenol gan Defra (2011: £46.4 miliwn) a £10.5 miliwn gan Lywodraeth yr Alban (2011: £11.5 miliwn). Derbyniwyd symiau ychwanegol gan Defra er mwyn helpu gyda chostau ad-drefnu (£1.75 miliwn yn 2010/11) ac ar gyfer creu systemau TG newydd ar gyfer Dyfrffyrdd Prydain yr Alban (£1.4 miliwn yn 2011/12) yn barod ar gyfer dadgyfuno oddi-wrth Dyfrffyrdd Prydain Cymru a Lloegr. Hefyd, talodd Defra gostau ad-daliad cynnar o £1.7 miliwn ar gyfer ad-dalu benthyciad o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, cyn y dyddiadau ad-dalu a drefnwyd, wrth baratoi i drosglwyddo i statws Ymddiriedolaeth elusennol.

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn prysur baratoi ar gyfer trawsnewid i'r Canal & River Trust yn Lloegr, Glandŵr Cymru yng Nghymru. Roedd costau proffesiynol a chynghori allanol ynghlwm wrth ddatblygu'r cynnig a chreu endid yr Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain wedi'u diddymu fel 'costau a gafwyd' ac yn gyfanswm o £1.7 miliwn (net) ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir y bydd £0.7 miliwn o ffioedd proffesiynol pellach yn deillio o gwblhau'r cynigion a'r broses o drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth newydd.

Mae gwerth portffolio eiddo Dyfrffyrdd Prydain yn dal i ddod dros effeithiau'r dirwasgiad yn y DU gyda chynnydd prisiant o 15.7% neu £62.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na marchnad eiddo'r DU a oedd yn wastad heb unrhyw dwf cyfalaf. Y rhenti tir sicr yn Wood Wharf a Paddington gyfrannodd at gynyddu gwerth Dyfrffyrdd Prydain, yn ogystal â'r rhagolygon datblygu mewn sawl adeilad yn ardal Docklands. Y tu allan i Lundain, fodd bynnag, mae pethau'n anoddach gyda ffactorau galw gwan.

Gwnaethpwyd elw o £1.7 miliwn (2011: £10.4 miliwn) ar waredu eiddo buddsoddi gan gynnwys £0.5 miliwn o elw ar werthu tir datblygu yn Diglis Basin, Caerwrangon a £0.4 miliwn yn Harrow Road, Llundain.

Gwellodd cyfran Dyfrffyrdd Prydain o elw a cholledion cyd-fentrau i golled o £0.3 miliwn (2011 : colled o £1.8 miliwn), yn bennaf yn sgil gwaredu safle datblygu eiddo preswyl yn Islington (£2.5 miliwn o elw, heb gynnwys treth) yn erbyn costau treth wedi'u gohirio, yn sgil gwaredu ein buddiannau yn Woods Wharf a Gloucester Quays. Yn ystod y flwyddyn, ailstrwythurodd Dyfrffyrdd Prydain ei bortffolio menter yn unol â'r strategaeth fuddsoddi. Gwerthodd Dyfrffyrdd Prydain ei fuddiannau yng nghyd-fenter Gloucester Quays i'w bartneriaid, Peel Holdings, ym mis Rhagfyr 2011 ar ôl gwneud penderfyniad anodd i beidio â buddsoddi ymhellach yn y busnes. Bydd Dyfrffyrdd Prydain yn parhau i gydweithio â Peel Holdings ar gynlluniau adfywio Gloucester Docks a chadw buddiant ariannol bychan yn llwyddiant Gloucester Quays yn y dyfodol. Cafodd Waterside Pub Partnership ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr gan ei benthycwyr ym mis Ebrill 2011, er mwyn cael gwared ar y tafarnau sy'n weddill a disgwylir i'r bartneriaeth gael ei diddymu yn llwyr yn 2012/13. Cafodd buddsoddiad Dyfrffyrdd Prydain yn y ddwy fenter eu dibrisio yn y blynyddoedd ariannol blaenorol gyda fawr ddim effaith ar ganlyniadau'r flwyddyn bresennol. Fel y nodwyd uchod, fe werthodd Dyfrffyrdd Prydain ei fuddiannau yng nghyd-fenter Wood Wharf ar delerau gohiriedig i Canary Wharf, gydag elw o £8.6 miliwn yn ogystal â derbyn cyfradd cwpon o 6.3% y flwyddyn ar elfen ohiriedig y £48 miliwn er mwyn darparu ffrwd incwm sicr ac uniongyrchol a phatrwm ailfuddsoddi trefnus dros bedair blynedd.

Crynodeb o'r canlyniadau £ miliwn (ac eithrio enillion y llywodraeth ar gostau a chymhorthdal cyfalaf)

	2011/12	2010/11	newid %
Incwm masnachol	108.2	103.6	4%
Cyfraniadau trydydd partïon at waith	14.6	14.0	4%
Grantiau llywodraeth	57.7	58.9	-2%
Cyfanswm refeniw	180.5	176.5	2%
Gwariant gweithredol	64.7	69.8	-7%
Costau prosiectau a ariennir gan drydydd partïon	17.5	18.3	-4%
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwaith mawr	90.4	92.1	-2%
Cyfanswm gwariant	172.6	180.2	-3%
Gwarged / (diffyg) gweithredol	7.9	(3.7)	
Llog net sy'n daladwy	(3.0)	(4.6)	
Cyfran elw a cholledion o gyd-fentrau	(0.3)	(1.8)	
Enillion a wireddwyd o werthu eiddo ac asedau buddsoddi a gadwyd i'w gwerthu	2.1	11.0	
Enillion gwaredu cyd-fenter	7.9	-	
Enillion ailbriso nas gwireddwyd ar eiddo buddsoddi	62.7	4.4	

Gwarged cyn treth	77.3	5.3	
Credyd / (tâl) treth	(3.9)	11.6	
Gwarged ar ôl treth	73.4	16.9	
Symiau a drosglwyddwyd i gronfeydd cyfalaf	(59.8)	(25.8)	
Gwarged / (diffyg) a drosglwyddwyd i / (o) gronfeydd referniw	13.6	(8.9)	
Cronfeydd cyfunol y grŵp	451.6	394.4	14.5%

Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fuddiant mewn tair cyd-fenter sylweddol bellach, ac mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn addawol er gwaetha'r sefyllfa economaidd fregus. Yn ISIS, parhaodd fflatiau ym Manceinion a Leeds i werthu'n dda mewn marchnad dai go dawel. Enillodd cynllun tai Granary Wharf Leeds y brif wobr yng ngwobrau UK Housing Design Awards 2011, ac ym mis Ionawr 2012, gwerthwyd yr uned olaf yn Islington Wharf Manceinion. Er na chafwyd elw, mae'r arian a gafwyd o'r gwerthiannau hyn wedi sicrhau bod y cyllid datblygu bron wedi'i ad-dalu'n gyfan gwbl. Bydd ISIS yn bwrw ymlaen â gwerthiant asedau yn Granary Wharf, Trent Basin Nottingham a Thurrock Park gan gynhyrchu'r arian angenrheidiol i dalu am ailddatblygu Brentford sydd ar y gweill yn 2013. Mae H2O Urban LLP yn datblygu cynlluniau llai â gwerth datblygu gros o lai na £15 miliwn fesul prosiect. Mae'r gyd-fenter yn disgwyl bod yn gweithio ar bedwar cynllun ar y safleoedd yn 2012. Yn City Road Basin, rydym yn gobeithio gwneud cynnydd pellach ar y tir yn 2012 gyda chydweithrediad Cyngor Bwrdeistref Islington, Llundain.

Cynyddodd cyfraniad ariannol trydydd partïon i brosiectau o £14.6 miliwn (2011 : £14.0 miliwn) yn bennaf oherwydd yr holl wario ar ddyfrffyrdd Llundain yn ardal y Parc Olympaidd. Roedd hyn yn golygu bod arian yn cael ei wario ar brosiectau amrywiol gan gynnwys gwaith carthu camlesi a gosod llwybrau mynediad. Llwyddodd hyn i ddiogelu'r incwm hwn i raddau helaeth rhag y trafferthion economaidd ehangach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er hynny, nid yw'r rhagolygon cystal o ran cymorth ariannol gan drydydd partïon yn y flwyddyn i ddod, ac mae'r lefelau incwm yn debygol o ostwng.

Cynyddodd cronfeydd y grŵp 14.5% i £451.6 miliwn (2011: £394.4 miliwn), sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn ailbrisiad eiddo buddsoddi o £57.6 miliwn heb ystyried treth ohiriedig yn erbyn cynnydd yn niffyg y gronfa bensiwn £18.6 heb ystyried treth ohiriedig.

Crynodeb o incwm masnachol y Grŵp £ miliwn		Grŵp Dyfrffyrdd Prydain		Cymru a Lloegr		Yr Alban	
	2011/12	2010/11	newid	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11
Rhenti eiddo, fforddfreintiau a phremiymau	38.2	34.4	11%	37.6	33.6	0.6	0.8
Incwm cyfleustodau a gwerthiant dŵr	24.4	25.1	-3%	23.0	23.7	1.4	1.4
Incwm trwyddedau cychod	17.8	17.4	2%	17.4	17.0	0.4	0.4
Cyfanswm incwm BWML	6.9	6.6	5%	6.9	6.6	-	-
Safleoedd angori Dyfrffyrdd Prydain	6.4	6.3	2%	5.9	5.8	0.5	0.5
Gwerthiant manwerthu Dyfrffyrdd Prydain	2.9	3.2	-9%	1.2	1.7	1.7	1.5
Cynnal a chadw ac incwm arall	11.6	10.6	9%	11.3	10.3	0.3	0.3
Incwm masnachol grŵp	108.2	103.6	4%	103.3	98.7	4.9	4.9
Cyfraniadau at adfer camlesi a gwaith arall a ariennir gan dryddydd partion	14.6	14.0	4%	13.5	12.9	1.1	1.1
Trosiant grŵp heb gynnwys cyd-fentrau	122.8	117.6	4%	116.8	111.6	6.0	6.0
Grantiau gan y llywodraeth	57.7	58.9	-2%	47.2	47.4	10.5	11.5
Trosglwyddo grant i ariannu'r seilwaith TG	-	-	-	(1.4)	-	1.4	-
Cyfanswm Incwm	180.5	176.5	2%	162.6	159.0	17.9	17.5

Dadansoddiad o'r costau gweithredu £ miliwn

		Grŵp Dyfrffyrdd Prydain		Cymru a Lloegr		Yr Alban	
	2011/12	2010/11	Newid	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gweithrediadau cwsmeriaid	66.5	65.4	2%	59.0	58.1	7.5	7.3
Gwaith seilwaith mawr	18.9	22.4	-15%	17.5	20.4	1.4	2.0
Carthu camlesi	5.0	4.3	16%	5.0	4.2	-	0.1
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwaith mawr	90.4	92.1	-2%	81.5	82.7	8.9	9.4
Timau cymorth a rheoli dyfrffyrdd cenedlaethol	38.2	41.9	-9%	33.5	38.0	4.7	3.9
Costau gweithredu incwm eiddo a hamdden	18.0	19.5	-8%	15.5	17.2	2.5	2.3
Costau gweithredu BWML	5.5	5.8	-6%	5.5	5.8	-	-
Asedau a ariennir gan waddol	3.0	2.6	15%	3.0	2.6	-	-
Gwariant gweithredu	155.1	161.9	-4%	139.0	146.3	16.1	15.6
Costau adfer camlesi a gwaith arall a ariennir gan	17.5	18.3	-4%	14.8	15.7	2.7	2.6

drydydd partion							
Cyfanswm costau gweithredu	172.6	180.2	-4%	153.8	162.0	18.8	18.2

Incwm masnachu

Cynyddodd cyfanswm incwm masnachol y Grŵp (ac eithrio arian trydydd partion) 4% i £108.2 miliwn.

Cynyddodd yr *incwm premiymau, ffyrddfaint a rhent eiddo* 11% i £38.2 miliwn, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn rhenti ar ôl ailstrwythuro'r prydlesi tir ar safle datblygu Wood Wharf. Hefyd, cynyddodd y rhenti o gaffaeliadau eiddo newydd. Buddsoddiwyd £31.2 miliwn mewn eiddo yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r £12 miliwn a fuddsoddiwyd tua diwedd 2010/11 a oedd yn cynnwys naw tafarn o'r Waterside Pub Partnership. Canolbarth Lloegr oedd canolbwynt y buddsoddiadau'n bennaf, a hynny ar gyfamodau tenantiaid o ansawdd da gyda chyfnodau prydles sylweddol heb ddod i ben. Ni chafwyd canlyniadau cystal o Lundain mewn cymhariaeth, oherwydd galw cryf o Brydain a thramor tra bod canolfannau rhanbarthol gogledd Lloegr yn dal i ddioddef yn sgil gorgyflenwi a phwysau'r dirwasgiad ar denantiaid. Bydd y buddsoddiadau o £31.2 miliwn a wnaed yn ychwanegu incwm o £2.3 miliwn y flwyddyn o 2012/13 ymlaen.

Yn y DU, roedd cryn obaith y byddai'r farchnad eiddo masnachol yn gwella ddechrau 2011. Ond chwalwyd y gobeithion hyn a throdd y gobeithion yn negyddol wrth i sefyllfa'r Eurozone fynd o ddrwg i waeth. Yn gyffredinol, mae gwerthoedd y farchnad 31% yn is na phenllanw 2007, ond mae portffolio Dyfrffyrdd Prydain wedi ymdopi'n gymharol dda gyda'r asedau buddsoddi eiddo 8% yn is na phrisiant mis Mawrth 2007. O gynnwys buddiannau'r cyd-fentrau yn y gwerthoedd hyn, mae asedau anweithredol Dyfrffyrdd Prydain bellach yr un faint â phrisiant Mawrth 2007 cyn y wasgfa economaidd, yr argyfwng ariannol byd-eang a'r dirwasgiad dilynol. Mae sefydlogrwydd cymharol y portffolio yn deillio'n bennaf o'r pwyslais uwch ar Lundain a'r sefyllfa iach o ran rhenti tir sylweddol yn Wood Wharf a Paddington yn bennaf. Mae gwerth yr incwm eiddo buddsoddi a gollwyd trwy unedau gwag fel canran o gyfanswm gwerth rhenti amcangyfrifedig (ERV) wedi gostwng i 7% o gymharu â 7.4% yn 2010/11 a disgwylir iddo ostwng ymhellach trwy reolaeth weithredol, y pwyslais ar gryfder prydlesi a chyfamod tenantiaid a lleiniau mwy o faint.

Roedd yr *incwm cyfleustodau* fymryn yn is na'r llynedd, ar ôl i ni elwa ar nifer sylweddol o daliadau untro mawr, rhai'n ymwneud â'r safle Olympaidd. Bu'n flwyddyn o dwf mewn incwm blynyddol cylchol ar draws yr holl feysydd busnes cyfleustodau. Cwblhawyd cytundeb hawddfaint newydd ar gyfer twnnel cebl o dan gamlas Regent er mwyn gwella grid trydan Llundain.

Cynyddodd *incwm trwydded cychod* 2% i £17.8 miliwn, diolch i arenillion gwell yn sgil codi prisiau (2% yn uwch na'r chwyddiant prisiau defnyddwyr) a gwelliannau sylweddol yng nghyfraddau'r niferoedd sy'n osgoi talu am drwydded. Mae'r gyfradd hon wedi gostwng 7% ers i ni gyflwyno gweithdrefnau monitro a gorfodi newydd yn 2007, i 3.4% ym mis Mawrth 2012. Roedd y ffactorau hyn yn cuddio effeithiau'r dirwasgiad economaidd a'r ffaith fod llai o drwyddedau wedi'u rhoi i gychwyr.

Dadansoddiad o drwyddedau cychod a roddwyd yng Nghymru a Lloegr

	2011/12	2010/11	Newid %
Cychod plaser preifat – camlesi ac afonydd**	27,016	27,566	-2%
Cychod plaser preifat – afonydd	4,873	4,856	0%
Cychod preswyl	85	78	9%
Cychod busnes	2,709	2,374	14%
Cyfanswm y trwyddedau hirdymor	34,683	34,874	-1%

Ystadegau cychod

	Cymru a Lloegr			Yr Alban		
	2011/12	2010/11	Newid	2011/12	2010/11	Newid
Incwm trwyddedau cychod hirdymor £ miliwn *	17.4	16.7	5%	0.070	0.066	6%
Nifer y trwyddedau cychod hirdymor a roddwyd **	34,683	34,874	-1%	606	575	5%
Incwm trwyddedau cychod fesul cwch £**	505	479	5%	115	115	-
Incwm am safleoedd angori £m	5.9	5.8	1%	0.39	0.38	3%
Nifer y trwyddedau angori a roddwyd ***	5,276	5,533	-5%	606	575	5%
Incwm safleoedd angori fesul trwydded £	1,099	1,048	5%	643	666	-3%

* Nid yw ystadegau ac incwm trwyddedau cychod yn cynnwys trwyddedau tymor byr sy'n cael eu cynnwys yn y cyfanswm incwm a nodir yn nhabl incwm masnachol y grŵp ar dudalen 32.

** Mae nifer y trwyddedau hirdymor a roddwyd yng Nghymru a Lloegr wedi'i ailddatgan ar gyfer 2010/11 o 27,933 i 27,566 er mwyn addasu ar gyfer gwall. O'r herwydd, cynyddodd y cyfrifiad incwm fesul trwydded cwch a roddwyd ar gyfer 2010/11 o £474 i £479.

***Ac eithrio BWML. Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys trwyddedau angori 3 blynedd a roddwyd mewn blyneddau blaenorol.

Gweithgareddau gweithredol £ miliwn

	2011/12	2010/11
Gwarged / (diffyg) gweithredol	7.9	(3.7)
Cyfran o ganlyniadau cyd-fentrau (ar ôl treth)	(0.3)	(1.8)
Elw ar werthu'r buddsoddiad cyd-fenter	7.9	-
Llog derbyniadwy	2.1	1.0
Llog taladwy	(5.1)	(5.6)
Gwarged / (diffyg) ar weithgareddau gweithredol cyn treth	12.5	(10.1)
Treth gorfforaethol i'w phriodoli	3.1	1.2
Trosglwyddo (i) / o gronfeydd cyfalaf a wireddwyd*	(2.0)	-
Gwarged / (diffyg) net	13.6	(8.9)

* Mae trosglwyddo i'r cronfeydd cyfalaf a wireddwyd yn ymwneud â'r elw o werthu eiddo preswyl a gyfrifir fel asedau sefydlog gweithredol

Gweithgareddau anweithredol £ miliwn

	2011/12	2010/11
Elw ar waredu eiddo buddsoddi a gwerthu asedau	2.1	11.0
Enillion nas gwiredwyd wrth ailbriso eiddo buddsoddi	62.7	4.4
Gwaged ar weithgareddau eiddo anweithredol cyn treth	64.8	15.4
Credyd / (tâl) treth ar enillion cyfalaf ar elw gwaredu eiddo	0.8	(2.8)
Addasiadau ar ostyngiad yn y dreth ar ddiffygion parhaol buddsoddiadau a wnaed mewn blynyddoed blaenorol	-	6.3
Credyd / (tâl) treth ohiriedig ar enillion nas gwiredwyd	(7.8)	6.9
Gwaged ar weithgareddau eiddo anweithredol ar ôl treth	57.8	25.8
Trosglwyddo i gronfeydd cyfalaf a wiredwyd	(57.8)	(25.8)
Gwaged net a gadwyd	-	-

Crynodeb o symudiadau ar y gronfa refeniw £ miliwn

	Gweithgareddau Gweithredol	Gweithgareddau Cyd-fentrau	Is-gyfanswm	Diffyg mewn pensiynau	Cyfanswm
Balans ar 31 Mawrth 2011	4.6	(9.8)	(5.2)	(43.7)	(48.9)
Gwaged ar weithgareddau gweithredol ar gyfer y flwyddyn ar ôl treth	6.0	7.6	13.6	-	13.6
Trosglwyddo symudiadau cronfa bensiwn y flwyddyn gyfredol net treth ohiriedig	(2.8)	-	(2.8)	2.8	-
Cynnydd yn rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn net treth ohiriedig	-	-	-	(21.4)	(21.4)
Trosglwyddiad o gronfeydd cyfalaf a wiredwyd (trosglwyddo arian)	5.0	-	5.0	-	5.0
Balans ar 31 Mawrth 2012	12.8	(2.2)	10.6	(62.3)	(51.7)

Cynyddodd *incwm safleoedd angori Dyfrffyrdd Prydain* 2%, lle cafodd cynnydd o 5% mewn arenillion ar bris pob trwydded a roddwyd ei osod yn erbyn gostyngiad o 5% yn nifer y trwyddedau a roddwyd. Mae rhagor o fanylion am ein cychod a'n gweithgareddau cychod ar gael ar dudalen 19.

Cynyddodd incwm *British Waterways Marinas Limited (BWML)* 5% i £6.9m, ar ôl caffael dau farina yn Portavon a Cowroast. Ychwanegodd y rhain £0.3 miliwn at incwm y flwyddyn honno. Cafodd yr incwm o farinas yng nghanolbarth Lloegr hwb sylweddol yn sgil cynnydd mewn safleoedd angori mewn marinas newydd yn yr ardaloedd hynny.

Costau gweithredu

Gostyngodd *cyfanswm y costau gweithredu*, ac eithrio cyfraniadau trydydd partion, 4% i £155.1m. Bu gostyngiad o £5.2m (8%) yng nghostau'r timau cenedlaethol a chostau busnesau eiddo a hamdden hefyd, sy'n adlewyrchu effaith yr ailstrwytho sefydliadol a fu yn 2011 ar flwyddyn lawn. Roedd y costau hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.7 miliwn wrth drosglwyddo i'r Canal & River Trust h.y. ffioedd proffesiynol, cyngor ymgynghorwyr a chostau TG.

Cynyddodd gwariant *cynnal a chadw'r dyfrffyrdd a gwasanaethau cwsmeriaid* 2% gan gynnal gwir werth gwariant ar ôl gwneud arbedion.

Gostyngodd gwariant gwaith mawr £3.5m i £18.9m. Bu'n rhaid cwtdogi'r rhaglen wariant flynyddol yn y categori hwn ddechrau'r flwyddyn er mwyn mantoli'r gyllideb ar ôl ystyried y toriadau disgwylidig yng ngrantiau Defra a Llywodraeth yr Alban. Llwyddwyd i sicrhau tua £5 miliwn yn fwy o wariant na'r hyn a gynlluniwyd ddechrau'r flwyddyn, diolch i'r lefelau incwm uwch a gafwyd yn y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion am gostau cynnal a chadw ein hafonydd a'n camlesi hanesyddol ar gael ar dudalen 11.

Mae timau cenedlaethol a dyfrffyrdd yn cynnwys £1.7 miliwn tuag at gostau trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth ac yn cynnwys costau proffesiynol a chostau cyngor yn ogystal â systemau TG ar gyfer codi arian a gwahanu dyfrffyrdd yr Alban. Mae'r categori hwn yn cynnwys costau'r brif swyddfa a'r ganolfan rhannu gwasanaethau ynghyd â chostau'r timau gweithredol cenedlaethol a'r unedau dyfrffyrdd lleol. Mae'n cynnwys costau timau sy'n ymdrin â diogelwch, materion technegol a pheirianneg, dŵr a'r amgylchedd, costau cyfreithiol, adnoddau dynol, TGCh, y ganolfan gwasanaethau cyllid a gweinyddu, marchnata, cyfathrebu, gwasanaethau cwsmeriaid, archwiliad mewnol, rheoli ariannol a chostau'r cyfarwyddwyr gweithredol a'r Bwrdd. Ar ôl didynnu costau trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth ac ystyried y gost o £2 filiwn yn sgil y cynllun lleihau costau a gynhaliwyd yn 2010/11, mae'r lleihad sylfaenol yng nghostau'r timau cenedlaethol yn werth £3.2 miliwn (16%). Sicrhawyd hyn yn bennaf trwy wario £2.5 miliwn yn llai ar gostau cyflogres ac arbedion eraill, sy'n deillio'n uniongyrchol i'r camau a gymerwyd i leihau gorbenion yn y flwyddyn flaenorol.

Mae costau cymorth incwm eiddo a hamdden yn cynnwys y gwariant ar reoli busnesau cyfleustodau, hamdden ac eiddo ac yn cynnwys elw o £2.8 miliwn ar werthu eiddo gweithredol (2011: £0.8 miliwn), sef gwerthu bythynnod preswyl ar lannau camlesi yn bennaf.

Crynodeb o'r llif arian parod £ miliwn

	2011/12	2010/11
Gwarged / (diffyg) gweithredol	7.9	(3.7)
Eitemau anariannol yn y gwarged / diffyg gweithredol	(2.6)	2.6
Symudiadau mewn cyfalaf gweithio a darpariaethau	8.6	(5.3)
Difidendau o gyd-fentrau ac is-gwmnïau	2.0	0.4
Llog net sy'n (daladwy) / derbyniadwy	(0.2)	0.4
Llif arian parod gweithredol	15.7	(5.6)
Gwariant cyfalaf gweithredol (net)	(4.3)	(7.8)
Prynu eiddo buddsoddi	(31.2)	(14.4)
Gwaredu eiddo buddsoddi	11.3	16.3
Gwaredu buddsoddiadau cyd-fenter (net)	4.4	-
Buddsoddi net mewn cyd-fentrau	0.4	(3.2)
Taliadau i sicrhau busnes neu fasnach	(2.6)	(0.5)
Treth	8.7	(1.4)
Llif arian parod net	2.4	(16.6)
Balans arian parod ar 31 Mawrth	54.0	51.6

Enillion a cholledion nas gwireddwyd ar weithgareddau eiddo anweithredol

Fel y nodwyd eisoes, cytundeb prydlesu newydd Wood Wharf i Canary Wharf oedd yn bennaf gyfrifol am yr enillion ar brisant eiddo anweithredol Dyfrffyrdd Prydain. Byddai'r darlun yn eithaf fflat heb hyn, gyda'r enillion mewn sawl safle yn ne Lloegr, lle mae'r adolygiadau rhenti neu'r rhagolygon datblygu wedi gwella, yn gwneud iawn am y pwysau ar werthoedd eiddo eilaidd yng ngogledd Lloegr. Mae'r credyd treth gohiriedig ar elw nas gwireddwyd yn adlewyrchu'r gostyngiad yng nghyfradd y dreth gorfforaeth o 26% i 24%. Y swm net a drosglwyddwyd i'r cronfeydd cyfalaf yw £57.8 miliwn (2011 : £25.8 miliwn) sy'n cynrychioli'r elw ar ailbriso eiddo buddsoddi a'r elw yn sgil gwaredu eiddo buddsoddi net treth i'w phriodoli.

Gwarged / diffyg ar weithgareddau gweithredol

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi'i ariannu'n rhannol gan grant cymorth gan Defra ar gyfer dyfrffyrdd Cymru a Lloegr a chan Lywodraeth yr Alban ar gyfer dyfrffyrdd yr Alban. Dim ond mewn 'achos o angen' y gellir darparu arian cymorth grant, ac yn unol â hynny, mae Dyfrffyrdd Prydain yn ceisio mantoli'r cyfrifon yn ei gyfrif refeniw gweithredol o un flwyddyn i'r llall. Mae'r crynodeb o symudiadau yn y tabl cronfa refeniw yn dangos i ba raddau y mae Dyfrffyrdd Prydain yn llwyddo i fantoli'r cyfrif refeniw bob blwyddyn.

Rheolaeth y Trysorlys a hylifedd

Rydym yn buddsoddi balansau arian yn y farchnad ariannol am hyd at dri mis ar y mwyaf. Dyma'r balansau arian ar ddiwedd y flwyddyn:

Cyfrifon banc £ miliwn	2011/12	2010/11
Masnachu – cwmni Dyfrffyrdd Prydain	30.2	11.4
Masnachu – Is-gwmnïau	5.4	6.1
	35.6	17.5
Cyfalaf masnachol	17.3	32.8
Cadw mewn cyfrifon trydydd parti ar gyfer adfywio	1.1	1.3
	54.0	51.6

Nid yw Dyfrffyrdd Prydain yn ymwneud rhyw lawer â'r marchnadoedd arian, ac mae hynny a'r ffaith ein bod yn mynd ati'n ddiwyd i reoli hylifedd, wedi sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i wrthsefyll unrhyw ansicrwydd yn y marchnadoedd arian.

Gwireddwyd cyfanswm net o £19.9 miliwn (2010: £1.9 miliwn) o arian parod yn ystod y flwyddyn trwy brynu eiddo buddsoddi, net y cyfanswm a briodolwyd i ail-fuddsoddi mewn eiddo. Derbyniwyd ad-daliadau treth gorfforaeth o £8.7 miliwn am ddefnyddio'r colledion cyfalaf a gododd o'r cyd-fentrau yn erbyn treth y flwyddyn flaenorol a dalwyd eisoes. Cedwir y balansau arian anweithredol i ail-fuddsoddi mewn eiddo a chyd-fentrau anweithredol ac i fodloni rhwymedigaethau treth.

Rheoli risg hylifedd a benthyca

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn cael ei gynnwys ym mesurau rheoli benthyca'r sector cyhoeddus ac ni chaniateir iddo fenthyca arian na mynd i ddyled oni bai yr awdurdodir hynny gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae benthyciadau awdurdodedig Dyfrffyrdd Prydain yn cynnwys benthyciadau gan y Port of London Properties a chyfleuster gorddrafft o £3 miliwn. Mae benthyciadau cyfalaf gweithio ar gael gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar sail 'yn ystod y flwyddyn' hyd at y cyfyngiad benthyca awdurdodedig o £35 miliwn ar gyfer yr holl fenthyca a dyled.

Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fuddiant mewn nifer o gyd-fentrau datblygu eiddo sy'n fusnesau annibynnol a ariennir yn annibynnol gyda dyled banc allanol heb atebolrwydd i Ddyfrffyrdd Prydain. Ym mhob un o'r cyd-fentrau, asesir a ddylai'r taliadau llog ar fenthyciadau gael eu diogelu o ystyried cwantwm y ddyled, y cyfnod y bwriedir i'r benthyciadau fod yn ddyledus a sensitifrwydd y prosiect i newidiadau yn y cyfraddau llog.

Crynodeb o'r newidiadau i ddiffyg y gronfa bensiwn £ miliwn

	2011/12	2010/11
Diffyg ar 1 Ebrill	(59.0)	(95.5)
Cost gwasanaethau cyfredol	(6.7)	(7.9)
Addasiad cost am wasanaeth a roddwyd	(0.1)	-
Disgownt o ddirwyn i ben rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	(18.9)	(20.4)
Elw ar asedau'r cynllun pensiwn	24.0	16.1
Enillion / (colledion) actiwaraid	(32.7)	40.1
Cyfraniadau mewn arian parod gan y cyflogwr	11.4	8.6
Diffyg ar 31 Mawrth	(82.0)	(59.0)

Asedau a rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn £ m

	2011/12	2010/11	Newid
Gwerth asedau ar y farchnad	308.3	287.9	7.1%
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau	(390.3)	(346.9)	12.5%
Diffyg	(82.0)	(59.0)	
Cyllid %	79%	83%	

Cyfran Dyfrffyrdd Prydain o fenthyciadau ar gyfer cyd-fentrau £ miliwn

	2011/12	2010/11
Gloucester Quays	-	48.7
ISIS Waterside Regeneration	0.4	6.4
Waterside Pubs Partnership	-	-
Wood Wharf	-	2.6
	0.4	57.7

Ar 31 Mawrth 2012, £0.4 miliwn (2011: £57.7 miliwn) oedd cyfran Dyfrffyrdd Prydain o fenthyciadau banc ar gyfer cyd-fentrau. Mae hyn yn adlewyrchu gwaredu buddiant yn Gloucester Quays, y Waterside Pub Partnership a Wood Wharf ac ad-dalu benthyciadau'r banc yn ISIS gyda'r derbyniadau o werthu fflatiau preswyl.

Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fenthyciadau hefyd gan Port of London Properties (POLP) ar gyfradd llog gyfnewidiol, sef 1% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Y cyfanswm oedd yn ddyledus i POLP oedd £12.9 miliwn yn 2011 a 2010.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Defra gyfraniadau cyfalaf o £5.2 miliwn i Ddyfrffyrdd Prydain fel y gallai dalu gweddill y benthyciadau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol cyn trosglwyddo i'r Canal & River Trust.

Cronfa Bensiwn

Yn unol â chronfeydd pensiwn tebyg eraill yn ystod y flwyddyn, bu cydberthynas yr asedau buddsoddi â'r farchnad arian gyffredinol yn gadarnhaol, gan ddangos cynnydd bach yn eu gwerth o £20.4 miliwn, neu 7.1% o gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Ar 31 Mawrth 2012, 79% (2011 : 83%) oedd y rhwymedigaethau a gwmpaswyd gan werth asedau. Mae'r colledion actiwaraid ar rwymedigaethau o £43.4 miliwn yn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth y gyfradd ddisgownt o 5.5% i 4.6% a ddefnyddir i gyfrifo gwerth cyfredol rhwymedigaethau. Mae'r gyfradd ddisgownt is yn adlewyrchu'r newidiadau mewn arenillion bondiau dros y cyfnod hwn.

Mae'r tabl pensiynau yn dangos symudiad y gronfa bensiwn ar sail safon gyfrifyddu IFRS ar gyfer pensiynau, IAS 19. Bydd y diffyg o £82.0 miliwn ar y gronfa ar 31 Mawrth 2012 yn cael ei ariannu dros gyfnod sy'n sicrhau bod y diffyg yn cael ei ddileu, gan roi sylw arbennig i fforddiadwyedd a'r cyllid sydd ar gael.

Mantolen

Mae cronfeydd y Grŵp wedi cynyddu £57.2 miliwn i £451.6 (2011: £394.4 miliwn) sef cynnydd o 15%. Prif elfen y cynnydd hwn yw cynnydd o £57.6 miliwn yn ailbrisiad eiddo buddsoddi, net treth ohiriedig yn erbyn cynnydd yn niffyg y gronfa bensiwn o £18.6m net treth ohiriedig.

Mae'r cronfeydd refeniw wedi'u rhannu yn y tabl ar dudalen 34 i ddangos diffyg y gronfa bensiwn a gweithgareddau cyd-fentrau ar wahân i'r cronfeydd refeniw cronodig ar weithgareddau gweithredol.

Rheoli risg

Diogelwch cwsmeriaid, contractwyr a gweithwyr cyflogedig ar y dyfrffyrdd yw prif flaenoriaeth Dyfrffyrdd Prydain. Mae Dyfrffyrdd Prydain yn ceisio gwella'i brosesau diogelwch yn gyson. Mae hyfforddiant diogelwch, gweithdrefnau, arwyddion, arolygu rheolaidd a chynnal a chadw asedau a datblygu cymwyseddau perthnasol yn enghreifftiau o fframwaith diogelwch Dyfrffyrdd Prydain.

Mae'r adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 46 yn amlinellu agwedd Dyfrffyrdd Prydain. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw parhau i egluro risgiau, sicrhau bod prosesau rheoli effeithiol ar waith ac ymgorffori gweithdrefnau rheoli risg yn niwylliant Dyfrffyrdd Prydain. Mae'r prif risg yn deillio o'r seilwaith dyfrffyrdd a gweithgareddau masnachol.

Mae deddfwriaeth a rheoliadau'n golygu bod Dyfrffyrdd Prydain yn agored i newidiadau mewn safonau cytunedig, o ystyried natur ein gwaith a'n cyfrifoldebau. Bydd yr effaith yn gliriach wrth i'r gofynion llawn ddod i'r amlwg, er enghraifft, y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

Mae partneriaethau'n darparu mwy a mwy o ffynonellau angenrheidiol a phwysig o gyllid ychwanegol. Mae'r mentrau hyn yn golygu bod modd gwella asedau Dyfrffyrdd Prydain ymhellach trwy ddefnyddio arbenigedd datblygu a chronfeydd buddsoddi allanol. Datblygwyd prosesau i leihau risg wrth ddewis partneriaid cyd-fentrau. Mae ein cyd-fentrau'n cynnwys datblygiadau eiddo sylweddol sy'n cynnwys risgiau masnachol amrywiol.

Mae arbenigedd partneriaid yn cyfrannu'n weithredol at y meysydd hyn i reoli risgiau'n effeithiol o fewn cyfyngiadau'r cylch economaidd ehangach.

Gall *esblygiad a newid sefydliadol* greu nifer o risgiau cysylltiedig, er enghraifft, ymddygiad o ran cysondeb wrth ddatblygu safonau, gwasanaethau cwsmeriaid a diogelwch mewn modd cost-effeithiol. Mae Dyfrffyrdd Prydain yn defnyddio codau arfer gorau i reoli'r risgiau er mwyn sicrhau masnachu teg, technegau rheoli prosiect cydnabyddedig, cyfathrebu, arfarniadau perfformiad rheolaidd a chynlluniau datblygu unigol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau busnes parhaus. Byddant yn arbennig o berthnasol wrth symud i'r trydydd sector. Bydd Dyfrffyrdd Prydain yn addasu polisïau a gweithdrefnau

i sicrhau bod yr holl risgiau perthnasol yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso a bod mesurau rheoli digonol ar waith i leihau'r risgiau hyn.

Cyflawnir amodau *cynaliadwy* trwy barhau i arolygu, asesu a blaenoriaethu asedau camau lliniaru sy'n debygol iawn o fethu, gyda balans o waith hanfodol i'w gwblhau.

Amcanion ehangach Dyfrffyrdd Prydain yw ymrwymiad i ddarparu buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol a threftadaeth. Mae holl asedau treftadaeth y cwmni'n cael eu hasesu'n rheolaidd. Defnyddir asesiadau risg yn unol â chod ymarfer amgylcheddol Dyfrffyrdd Prydain gyda'r holl waith a gyflawnir. Hefyd, mae Dyfrffyrdd Prydain wedi cyflwyno targedau cynaliadwyedd i leihau effaith allyriadau carbon a'r defnydd o adnoddau. Mae risgiau diogelwch, fandaliaeth a ffactorau sy'n rhwystro mynediad i bawb yn cael eu rheoli gan rôl addysgol ac ymgysylltu â chymunedau Dyfrffyrdd Prydain trwy sefydliadau sy'n weithgar ym meysydd cynhwysiant cymdeithasol a gwirfoddolwyr.

AELODAU'R BWRDD

Tony Hales CBE, Cadeirydd

Tony yw cyfarwyddwr anweithredol Capital and Regional ccc a'r International Personal Finance Group ccc. Mae hefyd yn gadeirydd Ymddiriedolwyr Cronfa Bensiwn NAAFI, ymddiriedolwr Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru a SSVC, gwasanaeth darlledu'r lluoedd arfog. Cyn hyn, ef oedd cadeirydd Workspace Group ccc, prif weithredwr Allied Domecq, cyfarwyddwr anweithredol Banc HSBC ccc, Dŵr Cymru ccc ac Aston Villa ccc, a chadeirydd NAAFI Cyf. 63 oed. (D, F, G)

John Bridgeman CBE TD, Is-gadeirydd

Ymunodd John â'r Bwrdd yn 2006. Mae'n gyn-gyfarwyddwr cyffredinol Fair Trading, yn aelod o'r Comisiwn Monopoliâu a Chydsoddiadau ac yn Brif Swyddog Gweithredol British Alcan Aluminium ccc. Mae hefyd yn gyfarwyddwr rheoleiddiol ac yn Ymddiriedolwr Pensiwn y British Horseracing Authority, cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Safonau Cyngor Swydd Warwig, comisiynydd cynwion Direct Marketing Authority ac yn Ymddiriedolwr hirsefydlog gyda thair elusen yn Swydd Rydychen. Mae'n aelod o Bwyllgor Ombwdsmon y Dyfrffyrdd ac yn gadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru. 66 oed. (A, B, D, F, H)

John Bywater

Mae John yn gyfarwyddwr anweithredol Low Carbon Workplace Cyf, is-gwmni'r Ymddiriedolaeth Garbon. Ef yw rheolwr gyfarwyddwr Caddick Developments yn Swydd Efrog, cyfarwyddwr anweithredol Workspace Group ccc a Realis Estates ccc. Mae John hefyd yn gyn-gyfarwyddwr gweithredol Hammerson ccc, un o gwmnïau'r Can Cwmni cyn iddo ymddeol yn 2007. Mae John hefyd yn ymddiriedolwr Opera North, Leeds. Age 64. (C, G)

Rodney Green

Ymunodd Rodney â'r Bwrdd ar 1 Mai 2009. Ef yw Prior Lloegr a'r Ynysoedd, Priordy Sant Ioan. Mae'n ymddiriedolwr A Rocha International, asiantaeth gadwraeth sy'n gweithio'n rhyngwladol. Cyn hynny, bu'n brif weithredwr Cyngor Dinas Caerlŷr, yn ogystal â phrif weithredwr cynorthwyol Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg, a Swyddog Addysg Sirol Cynorthwyol, Cyngor Sir Surrey. Fe wasanaethodd hefyd ar banel cynghori cenedlaethol Cynllun Beacon sy'n rhannu enghreifftiau o ragoriaeth ac arloesedd mewn gwasanaethau cyhoeddus; a'r Migration Impacts Forum. 59 oed. (B)

Dr. Jon Hargreaves CBE

Ymunodd Jon â'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2008 er mwyn cynrychioli buddiannau'r Alban yn sgil ei brofiad helaeth yn y diwydiant dŵr, yn fwyaf diweddar fel prif weithredwr Scottish Water. Mae hefyd yn Gadeirydd Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban. Mae John yn aelod anweithredol o'r Baltic Centre for Contemporary Arts, Gateshead, a The Port of Tyne Trust. Mae ganddo 35 mlynedd o brofiad yn y diwydiant dŵr a phrofiad o farchnadoedd tramor hefyd. 62 oed. (E, C)

Nigel Hugill

Nigel yw cadeirydd y pwyllgorau archwilio ac eiddo. Mae'n gyfarwyddwr gweithredol Urban & Civic ac yn gyn-gadeirydd Lend Lease Europe a rheolwr gyfarwyddwr Chelsfield ccc (busnesau datblygu eiddo mawr). Ef yw cadeirydd y pwyllgor melin drafod trefol, Centre for Cities, a chadeirydd pwyllgorau prosiect strategaeth a chyfalaf ystadau y London School of Economics, lle mae'n aelod o'r Cyngor. Mae hefyd yn gadeirydd y pwyllgor sy'n goruchwyllo'r datblygiad arfaethedig yn Tate Britain.

Mae'n gyn-gynghorydd arbennig i'r Homes and Communities Agency. Yn fwyaf diweddar, daeth yn gadeirydd y Royal Shakespeare Company ym mis Medi 2011. 54 oed. (B, D, G)

Pommy Sarwal

Mae Pommy yn aelod anweithredol o fyrdau The Port of London Authority, Christie Group ccc, Chatham Historic Dockyard Trust, a'r Hyde Housing Association. Mae hefyd yn gadeirydd y Master Ropemakers Cyf a Venners Cyf. Mae gan Pommy brofiad helaeth ym maes rheolaeth ariannol yn y sectorau preifat a chyhoeddus ac mae'n gyn bartner cyllid corfforaethol yn Deloitte ac yn aelod o'r Grŵp Cynghori ar Borthladdoedd yn Is-adran Masnach a Buddsoddiadau'r DU yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae ganddo ddi-ddordeb brwd mewn materion treftadaeth a chadwraeth. 61 oed. (B, F)

Duncan Sutherland

Ymunodd Duncan â'r Bwrdd er mwyn cynrychioli buddiannau'r Alban. Ef yw rheolwr gyfarwyddwr Inpartnership. Cyn hynny, bu'n gyfarwyddwr City Development ar ran Cyngor Dinas Coventry gan lwyddo i gyflawni llawer o brosiectau canol y ddinas gan gynnwys Coventry Canal Basin. Bu'n gweithio hefyd i Inner City Enterprises ccc, yn brif weithredwr EDI Group Cyf, ac mae wedi cyfrannu at sefydliadau cenedlaethol fel yr Historic Burghs Association of Scotland Advisory Council ac yn aelod o bwyllgor gweithredol y Scottish Council for Development & Industry. 60 oed. (C, E, G)

CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

Robin Evans BSc, FRICS Prif weithredwr

Ymunodd Robin â Dyfrffyrdd Prydain ym 1999 fel cyfarwyddwr masnachol cyn dod yn brif weithredwr ym mis Rhagfyr 2002. Cyn hynny, treuliodd bedair blynedd fel cyfarwyddwr palasau ar gyfer yr Historic Royal Palaces a bu'n brif weithredwr The Landmark Trust am wyth mlynedd. 58 oed.

Steve Dunlop BEd (Anrh) Cyfarwyddwr yr Alban

Mae Steve yn gyn-gyfarwyddwr Adfywio gyda Chyngor Dinas Newcastle. Dechreuodd ei yrfa ym maes rheoli hamdden cyn symud ymlaen i nifer o swyddi uwch, proffil uchel, ym myd llywodraeth leol, y ddiweddaraf fel cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymuned gyda Chyngor Falkirk. 49 oed.

Nigel Johnson BSc (Econ), Cyfreithiwr

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd Roedd Nigel yn gyfreithiwr corfforaethol yn y diwydiant ariannol am 18 mlynedd ac yn uwch-gyfreithiwr gydag elusen genedlaethol yn Westminster cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain yn y flwyddyn 2000. 57 oed.

Stuart Mills, BSc, MRICS

Cyfarwyddwr Eiddo

Mae Stuart yn syrfêwr siartredig. Ymunodd â Dyfrffyrdd Prydain ym 1990 ar ôl gweithio gyda chwmni Drivers Jonas, ymgynghorwyr eiddo sector preifat. Mae wedi gweithio mewn sawl swydd yn ymwneud ag eiddo ar hyd a lled y wlad, ac fel Pennaeth Eiddo yn fwy diweddar, bu'n gyfrifol am sefydlu nifer o fentrau ar y cyd. 44 oed.

Vince Moran BA, FCIPD

Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Ymunodd Vince â Dyfrffyrdd Prydain yn sgil profiad helaeth fel rheolwr personél a chyffredinol ym maes cynhyrchu, gweithgynhyrchu a gweithgareddau gwasanaeth gyda'r diwydiant glo a Chubb Security ccc. 56 oed.

Philip Ridal BEng, FCA, MCT

Cyfarwyddwr Cyllid

Mae Philip yn aelod cymrawd o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig ac yn aelod o Gymdeithas y Trysoryddion Corfforaethol, a bu'n gweithio mewn amryw o swyddi ariannol gyda chwmnïau eiddo rhestredig y DU, gan gynnwys grŵp adeiladu Mowlem, ac mae'n gyn-gyfarwyddwr cyllid Manchester Airports Group ccc. 58 oed.

Simon Salem BA, MBA

Cyfarwyddwr Marchnata

Mae gan Simon dros 25 mlynedd o brofiad ym myd marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, materion corfforaethol a chodi arian. Bu'n gweithio i London Transport cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain. Mae wedi gweithio'n helaeth yn y diwydiant hamdden a thwristiaeth. 54 oed.

Jim Stirling OBE, BSc, MBA, CEng, FICE, MIStructE

Cyfarwyddwr Technegol

Ymunodd Jim â Dyfrffyrdd Prydain fel Rheolwr, Yr Alban ym 1992 cyn dod yn gyfarwyddwr yr Alban ym 1997 a chyfarwyddwr technegol yn 2005. Treuliodd Jim flynyddoedd lawer ym myd peirianeg sifil, adeiladu a datblygu yn y DU a thramor. 59 oed.

Aelodau'r Bwrdd

Mae aelodau Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yn achos dau aelod gan Lywodraeth yr Alban. Y nod yw sicrhau penodiadau sy'n cynnwys cydbwysedd da o sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith eang Dyfrffyrdd Prydain.

Allwedd i'r Aelodaeth

- A. Cyfarwyddwr Ymddiriedolwyr Pensiwn Dyfrffyrdd Prydain Cyf.
- B. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
- C. Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- D. Aelod o'r Pwyllgor Enwebu
- E. Aelod o Grŵp yr Alban, Dyfrffyrdd Prydain
- F. Aelod o'r Pwyllgor Masnachu Teg
- G. Aelod o'r Pwyllgor Grŵp Eiddo
- H. Aelod o Grŵp Cyngori Cymru